# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2025-26

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Amdanom ni | 6 |
| Rhan 1: Adroddiad Perfformiad | 12 |
| Rhan 2: Atebolrwydd | 55 |
| Rhan 3: Datganiadau Ariannol | 88 |

# Rhagair



## Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol. Mae'n adlewyrchu blwyddyn brysur a chynhyrchiol lle gwelwyd ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2025-30 yn dechrau dwyn ffrwyth.



Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd ein hadroddiad 5-mlynedd, adroddiad cynhwysfawr sy'n ystyried sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganfyddiadau'r cyfrifiad yng nghyd-destun y Gymraeg. Roedd yn gyfle pwysig i edrych yn onest ar y cynnydd a wnaed a'r heriau a'r dewisiadau strategol sydd o'n blaenau.

O gofio bod plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth barhaus i ni, roedd yn dda gweld Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Gall y ddeddfwriaeth hon fod yn ddatblygiad arwyddocaol tu hwnt yng nghyd-destun y Gymraeg, ond mae angen sicrhau adnoddau priodol ac ymrwymiad parhaus er mwyn i'r weledigaeth sy'n greiddiol iddi gael ei gwireddu.

Yn yr un modd, roedd yn galonogol gweld Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion adroddiad cyntaf y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Serch hynny, mae'n hanfodol gweld gweithredu pendant yn y maes hwn. Gwelwyd hefyd gyhoeddi adroddiad Cam 2 y Comisiwn, a oedd yn canolbwyntio ar gymunedau â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg.

Mae'r galwadau penodol am gryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol ynghyd â'r pwyslais ar ddatblygu gweithleoedd yn cyd-fynd yn gryf â'm galwadau innau, ac rwy'n edrych ymlaen at chwarae fy rhan wrth weithredu rhai o'r argymhellion pwysig hynny.

Cafodd y Gymraeg yn ein gweithleoedd sylw penodol eleni mewn cynhadledd a gynhaliwyd gennym yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd cynhadledd arall yn Wrecsam, a oedd yn canolbwyntio ar gydnabod ac arddangos arferion da ymhlith sefydliadau o ran defnyddio'r Gymraeg. Roedd y gynhadledd yn gychwyn perffaith i'n hymgyrch flynyddol Defnyddia dy Gymraeg, ymgyrch sy'n mynd o nerth i nerth ac sy'n gweithio ochr yn ochr â'n gwaith rheoleiddio.

Rydym wedi parhau â'n galwadau i weld mwy o sefydliadau'n dod o dan safonau'r Gymraeg, gan gryfhau'r fframwaith statudol ar gyfer sicrhau gwasanaethau Cymraeg cyson a theg. Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd ar hysbysiadau cydymffurfio drafft ag wyth sefydliad, a arweiniodd at osod hysbysiadau terfynol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Panel Dyfarnu Cymru a Chymwysterau Cymru.

Yn ogystal, cafwyd cam arwyddocaol yn y sector tai, gyda rheoliadau bellach wedi'u gosod ar gymdeithasau tai Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd cymdeithasau tai, fel darparwyr gwasanaethau hanfodol i ddinasyddion ledled Cymru, yn dod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Wrth ddatblygu ein dull o gyd-reoleiddio – sydd wedi derbyn croeso cyffredinol – cyflwynwyd polisi gorfodi diwygiedig sy'n ein galluogi i gymryd camau pendant pan fo sefydliad yn methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau iaith.

Mae'r polisi gorfodi yn amlygu ein rôl ddeuol fel rheoleiddiwr wrth gwrs: addysgu, cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth, a gorfodi lle bo angen. Ein dymuniad yw gweithio gyda sefydliadau drwy ddull ataliol a chydweithredol, er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae angen camau gorfodi. Fodd bynnag, pan nad oes sicrwydd na hyder fod sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau, byddwn yn gweithredu'n gadarn gan ddefnyddio ein holl bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth, a thrwy hynny ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg.

Cawsom gyfleoedd hefyd i fwynhau ein gwyliau cenedlaethol yn ne a gogledd Cymru. Ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd Bro Dur cyhoeddwyd gwaith ymchwil newydd oedd yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol fwynhau wythnos lwyddiannus yn Wrecsam cawsom y cyfle i gyhoeddi polisi ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan sefydliadau sy'n dod o dan safonau'r Gymraeg.

Rydym am ddefnyddio ein holl bwerau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod a'i chryfhau ar draws Cymru. Er bod ein dyheadau yn uchel, gostyngiad sydd wedi bod dros y degawd diwethaf i'n hadnoddau ariannol. Wrth i'r nifer o sefydliadau sy'n dod o dan ein cyfundrefn rheoleiddio gynyddu, ac wrth i ni aeddfedu fel sefydliad, mae'n amserol ystyried a yw ein hadnoddau yn addas i gyflawni ein holl obeithion ni, a'r disgwyliadau sydd arnom. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i hyn dros y cyfnod nesaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar gychwyn cyfnod Llywodraeth newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom adnabod blaenoriaethau penodol ar gyfer y Llywodraeth newydd fydd, yn fy marn i, yn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i sefyllfa'r Gymraeg. Rwy'n awyddus i weld gweithredu dwys a buan gan y Llywodraeth hon er budd y Gymraeg, ac yn gobeithio y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu hystyried yn llawn wrth iddi roi ei chynlluniau ar waith.


Wrth gloi, hoffwn ddiolch o waelod calon i fy nghyd-swyddogion ac i aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am y cydweithio parod, ac i'n partneriaid ledled Cymru am y gefnogaeth rwyf i a'm swyddfa wedi ei chael drwy'r flwyddyn. Rydym yn rhannu'r un weledigaeth sef Cymru lle mae byw yn Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i bawb, a byddaf yn gwbl ddiwyro yn y gwaith o wireddu'r weledigaeth honno.



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

# Amdanom ni




Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg
Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg
Gweithio gyda sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg
Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i'r Gymraeg fod yn ganolog iddynt
Safoni a hybu enwau lleoedd Cymru
Statws y Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio
Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt
Cynnal ymchwil
Rhannu gwybodaeth am ein gwaith

# Mae Comisiynydd y Gymraeg eisiau i bobl Cymru allu byw eu bywydau yn Gymraeg. Ein rôl yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae ein gwaith yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Crëwyd y rôl gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a wnaeth hefyd roi statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru. Er mwyn cyflawni ein nod rydym yn:

## Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o sefydliadau yng Nghymru weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Dyletswyddau yw'r safonau sydd â'r bwriad o gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i bobl eu defnyddio yng Nghymru ac i hwyluso eu defnydd ohonynt. Golyga hyn fod rhaid i sefydliadau hyrwyddo'r defnydd o'u gwasanaethau. Mae'r safonau hefyd yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ac yn y gymuned yn achos awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol. Drwy gyfrwng ein gwaith rheoleiddio, rydym yn gweithredu rhaglen o weithgareddau er mwyn cefnogi, monitro ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau'r Gymraeg, a chymryd camau pellach os oes angen.

## Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg

Mae rhai sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg sydd â'r bwriad o sicrhau eu bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth eu gwaith. Maent wedi paratoi'r cynlluniau hyn oherwydd gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Sefydliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff y Goron yw'r sefydliadau hyn yn bennaf.



## Gweithio gyda sefydliadau o’r sector preifat a’r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg

Rydym yn annog sefydliadau yn y sector preifat a’r trydydd sector i gynyddu’r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn Gymraeg ac i ymgyrraedd at farc ansawdd y Cynnig Cymraeg. I’w helpu i wneud hyn rydym yn rhannu arfer da a chanllawiau ar sut i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Er bod y sectorau hyn yn eang rydym yn blaenoriaethu gweithio gyda sefydliadau mawr, fel archfarchnadoedd, siopau, a banciau sy’n darparu’r mwyaf posibl o wasanaethau i’r mwyaf posibl o bobl. Mae nifer o sefydliadau trydydd sector yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol a gwirfoddol yn ogystal â darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Rydym hefyd yn gweithio gydag arianwyr i’w hannog i osod amodau ieithyddol ar yr arian y byddant yn ei ddyrannu.




## Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i’r Gymraeg fod yn ganolog iddynt

Rydym yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bolisi cyhoeddus. Gwnawn hynny drwy flaenoriaethu gweithio mewn meysydd polisi sy’n effeithio ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd megis y sector addysg, y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chynllunio, a datblygu economaidd. Gan amlaf, rydym yn canolbwyntio ar faterion cenedlaethol a strategol sy’n golygu ein bod yn craffu a dylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn bennaf. Wrth ein gwaith rydym yn ymwneud â sefydliadau eraill sy’n gyfrifol am lunio neu weithredu polisi ar lefel genedlaethol neu â dylanwad ar ddatblygiad polisi cenedlaethol. Rydym hefyd yn craffu ar waith Senedd Cymru, ac ar ddeddfwriaeth yn San Steffan mewn meysydd nas datganolwyd sy’n effeithio ar y Gymraeg, megis y maes darlledu. Er ein bod yn aml yn ymateb i ddatblygiadau polisi sefydliadau eraill rydym hefyd yn gweithio’n rhagweithiol i osod ein hagenda polisi ein hunain yn y meysydd sydd o flaenoriaeth i’r defnydd o’r Gymraeg.

## Safoni a hybu enwau lleoedd Cymru

Mae enwau lleoedd o ddiddordeb i bobl mewn cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn cydweithio â sefydliadau o bob math i safoni enwau lleoedd Cymru gan wneud hynny ar sail ein canllawiau safoni enwau lleoedd cenedlaethol a chyngor ein Panel Safoni Enwau Lleoedd arbenigol. Rydym wedi cyhoeddi cronfa o enwau lleoedd safonol Cymru ac rydym yn gweithio i sicrhau bod y ffurfiau safonol hyn yn cael eu defnyddio yn gyson trwy Gymru gan sefydliadau o bob math. Rydym hefyd yn cyfrannu at ymdrechion i amddiffyn a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg.





## Statws y Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio

Gallwn ymchwilio i achosion o bobl yn atal siaradwyr y Gymraeg rhag defnyddio'r iaith â siaradwyr Cymraeg eraill. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn gallu digwydd oherwydd agweddau pobl tuag at y Gymraeg a diffyg gwybodaeth amdani. Byddwn yn ceisio deall pryd a pham y bydd achosion fel hyn yn digwydd ac yn gweithio i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o statws y Gymraeg a'r rhyddid sydd gan bobl i'w defnyddio, a cheisio cynyddu agweddau cadarnhaol gan bawb yng Nghymru tuag at y Gymraeg.

## Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt

Rydym yn cydweithio â chyrff eraill yng Nghymru sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a gyda chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a gweddill y byd. Mae sawl comisiynydd iaith ac ombwdsmon arall yn y byd sy'n gweithio i amddiffyn hawliau ieithyddol eu siaradwyr. Rydym yn dysgu am eu gwaith a'u profiadau hwythau ac yn rhannu ein profiadau a'r arferion da y gwelwn ninnau wrth ein gwaith gyda hwy. Gwnawn hynny yn bennaf drwy ein haelodaeth o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith.



## Cynnal ymchwil

Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwil o bob math sy'n ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol eraill yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal gwaith ymchwil i osod sail tystiolaeth i'n gwaith ac i fesur a ydym yn cyflawni ein hamcanion. Bob pum mlynedd mae'n ofynnol inni gyhoeddi adroddiad ar sefyllfa'r Gymraeg. Yn 2026 byddwn yn cyhoeddi Adroddiad 5-mlynedd a fydd yn adrodd ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.


## Rhannu gwybodaeth am ein gwaith

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein holl waith yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at y cyfleoedd sydd yna ar draws Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau y byddwn yn cydweithio â hwy wrth ein gwaith. Rydym yn rhannu arferion da am sut mae datblygu a hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cyfleoedd hynny.

# Rhan 1: Adroddiad Perfformiad




## Mae ein Cynllun Strategol am y cyfnod 2025–2030 yn gosod yr amcanion canlynol, ac mae’r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd wrth gwrdd â’r amcanion hynny.





### AMCAN 1

Cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o’r gwasanaethau hyn ac yn eu defnyddio’n rheolaidd.



### AMCAN 2

Cynyddu cyfleoedd ehangach i ddefnyddio’r Gymraeg gan greu amgylcheddau lle gall pobl ddefnyddio’r iaith yn hwylus ac yn gyson.




### AMCAN 3

Arwain y gwaith o eiriol dros y Gymraeg gan warchod a hyrwyddo buddiannau siaradwyr.

## Themâu Arbennig

# Bydd y tair thema isod yn flaenoriaeth i ni yn 2025–30 er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol a gwireddu ein gweledigaeth.



### PLANT A PHOBL IFANC

Y bobl ifanc sy'n siarad ac yn dysgu'r Gymraeg heddiw fydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y gymuned ac wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd eu hagweddau at y Gymraeg a'u harferion wrth ei defnyddio nawr yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol, yn ogystal â'u penderfyniadau ynghylch ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Rydym am weld pob plentyn, waeth beth fo'u cefndir, yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddyn nhw ac yn cael cyfle cyfartal i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.



### Y GWEITHLE

Mae'n hanfodol bod siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd ymlaen yn eu haddysg neu hyfforddiant, ac i fyd gwaith. Yr her yw cynnal sgiliau Cymraeg ein pobl ifanc a throi siaradwyr yn ddefnyddwyr tymor hir. Rhan allweddol o sicrhau'r dilyniant ieithyddol hwn yw galluogi pobl i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae canolbwyntio ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle â'r potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.



### IECHYD A GOFAL

Mae gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn arbennig gan y byddwn yn aml mewn sefyllfa o wendid pan fyddwn ni'n ceisio derbyn y gwasanaethau hyn. Rydym yn dymuno gweld cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sector iechyd a gofal yn gyffredinol, a gyda'r elusennau sy'n gweithio yn y sector, gan gynnwys rhoi pwyslais ar sicrhau bod pobl yn derbyn gofal clinigol yn y Gymraeg.

## Wrth i'r flwyddyn ariannol ddirwyn i ben, daeth hefyd ddiwedd i chweched tymor Senedd Cymru. O safbwynt y Gymraeg cafwyd tri datblygiad allweddol yn ystod y chweched Senedd, a'r rhain sy'n gosod y cyd-destun i'r Gymraeg heddiw.

Y cyntaf oedd cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r gwaith o ddadansoddi ac ystyried goblygiadau'r canlyniadau i ddatblygiad polisi iaith Gymraeg. Yr ail oedd datblygiadau arwyddocaol ym maes addysg a sgiliau, gan gynnwys cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru, cyflwyno Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, a dyfodiad Medr fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. A'r olaf oedd sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a'r ffocws cynyddol sydd wedi bod yn ystod y cyfnod hwn ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Nid yw'n syndod felly mai gweithredu pellach yn y meysydd hyn sydd wedi dwyn y sylw pennaf yn ystod 2025-26.

Ar 7 Gorffennaf 2025, derbyniodd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 gydsyniad brenhinol – trobwynt hanesyddol yn natblygiad polisi addysg ac iaith Gymraeg y Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd cychwyn o ddifri ar ei gweithredu. Y tu hwnt i'r Ddeddf, gwelwyd carreg filltir arall wrth i'r garfan gyntaf o ddisgyblion Cymru ddechrau astudio'r cymwysterau TGAU newydd a gynlluniwyd i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn ystod y flwyddyn mae Medr wedi cynnal sawl ymgynghoriad pwysig ar eu fframwaith cyllido a rheoleiddio, gan gynnwys yr amodau a osodir o ran y Gymraeg. Bellach mae'r gwaith o ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector drydyddol ar waith, a disgwylir y bydd Medr yn ymgynghori ar y datblygiad allweddol hwn yn ystod 2026-27. Bydd y datblygiadau hyn yn gosod cyfeiriad i dwf addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dros y cyfnod nesaf, a'r gobaith yw y bydd mwy o bobl ifanc yn parhau i ddatblygu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth barhau â'u haddysg neu hyfforddiant, ac wrth fynd i fyd gwaith.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad cyntaf y **Comisiwn Cymunedau Cymraeg**. Roedd yr adroddiad yn gwneud argymhellion pwysig ynghylch yr angen i amrywio polisi cyhoeddus mewn meysydd allweddol fel tai, cynllunio, addysg a'r economi mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn gweithredu rhai o'r argymhellion ac wedi cytuno, mewn egwyddor, â'r mwyafrif helaeth ohonynt.

Yn mis Mawrth 2026 cyhoeddwyd adroddiad ail gam y Comisiwn. Mae'r **adroddiad** yn dadlau bod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar ei chynnal a'i datblygu nid yn unig mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr, ond hefyd mewn cymunedau â dwysedd canolig neu is. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau pwrpasol mewn meysydd fel addysg, y gweithle, diwylliant, chwaraeon, technoleg a gwasanaethau cyhoeddus, gyda ffocws benodol ar gynyddu gwelededd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Rai wythnosau cyn cyhoeddi adroddiad ail gam y Comisiwn cyhoeddwyd Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg Cyfle ein cenhedlaeth. Yn ogystal â chynnig dadansoddiad manwl o ganlyniadau a goblygiadau Cyfrifiad 2021 mae'r adroddiad yn asesu sefyllfa'r Gymraeg 2021-25, gan amlygu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli i'r Gymraeg heddiw. Nid yw'n syndod bod yr adroddiad yn canolbwyntio yn benodol ar ddatblygiadau pwysig ym maes addysg a sgiliau, a hefyd yn ategu nifer o ganfyddiadau ac argymhellion adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ogystal ag adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Cymraeg i bawb.

Mae adroddiad 5-mlynedd y Comisiynydd yn nodi tri maes strategol y dylid eu blaenoriaethu er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf.

**Creu siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r gyfundrefn addysg**

**Cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chymdeithasol**

**Datblygu gweithleoedd sy'n cefnogi ac yn normaleiddio defnydd o'r Gymraeg**

O fewn y tri maes hyn, cynigir deg argymhelliad ymarferol y dylid eu blaenoriaethu er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf. Mae hyn yn cynnwys materion allweddol megis datblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog; cryfhau fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol; cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol, a rôl ganolog gweithleoedd wrth gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau uchod a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r prif heriau – ac, yn bwysicach, y prif gyfleoedd – sy'n wynebu'r Gymraeg heddiw. Mae'n drawiadol bod yr adroddiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar drothwy etholiad Senedd 2026, gan gynnig cyfeiriad clir i Lywodraeth Cymru. Wrth i flwyddyn ariannol 2025-26 ddirwyn i ben, y neges glir i Lywodraeth Cymru yw bod angen gweithredu yn fwriadol, yn feiddgar ac yn strategol os ydym o ddifri am wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050.



# Amcan 1

**Cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn ac yn eu defnyddio'n rheolaidd.**



# Ehangu cyfundrefn safonau'r Gymraeg

**Yn ystod y flwyddyn, symudwyd ymlaen â'r gwaith o ehangu ac atgyfnerthu cyfundrefn safonau'r Gymraeg ar draws ystod ehangach o sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg o ansawdd ar gael i'r cyhoedd a bod dyletswyddau clir yn cael eu gosod ar sefydliadau newydd sy'n dod o dan y Mesur.**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â Medr yn ystod 2024-25, ac o ganlyniad gosodwyd hysbysiad cydymffurfio ar y sefydliad ym mis Medi 2025. Bydd eu safonau cyntaf yn dod i rym ym mis Mawrth 2026, gan nodi carreg filltir bwysig ar eu taith i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarferiad ym mis Mawrth 2025 i ychwanegu nifer o sefydliadau at reoliadau presennol safonau'r Gymraeg. Yn dilyn hynny cynhaliwyd trafodaethau â phob un o'r sefydliadau hynny. Ymgynghorwyd ar hysbysiadau cydymffurfio drafft gydag wyth sefydliad, gan arwain at osod safonau ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Panel Dyfarnu Cymru a Chymwysterau Cymru ym mis Mawrth 2026.

Bydd y gwaith o osod safonau'r Gymraeg ar Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn parhau, gyda'r bwriad o gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i'r sefydliadau hyn yn ystod 2026-27.

Ar 28 Mawrth 2026, cymeradwyodd y Senedd Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026, sy'n ein galluogi i gychwyn y broses o osod safonau'r Gymraeg ar y sector cymdeithasau tai, gan gynnwys Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r sector wedi dechrau, a byddwn yn symud ymlaen i ymgynghori â'r cymdeithasau tai ar eu hysbysiadau cydymffurfio yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.



# Cynnal llinellau ymholi

Defnyddir llinellau ymholi allweddol fel dull wedi'i dargedu i archwilio meysydd penodol o weithredu safonau'r Gymraeg, ac i ddeall i ba raddau y mae trefniadau sefydliadau'n cefnogi profiad defnyddwyr y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar weithdrefnau sefydliadau wrth iddynt ymdrin â chwynion am y Gymraeg, o dan y teitl **Cwynion am y Gymraeg: Cyfleoedd i gryfhau**. Fel rhan o'r gwaith hwn, aseswyd trefniadau sampl o 30 o sefydliadau sydd o dan ddyletswydd safonau'r Gymraeg.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, roedd modd inni nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da, amlygu cyfleoedd clir i wella, a chyflwyno argymhellion ymarferol y gall sefydliadau eu rhoi ar waith i gryfhau eu prosesau ymhellach.

Yn ganolog i'r gwaith hwn mae'r neges ein bod yn dymuno gweld sefydliadau'n ystyried cwynion am y Gymraeg, nid fel ymarfer cydymffurfiaeth yn unig, ond fel adnodd strategol ar gyfer gwella gwasanaethau, adnabod bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg, a chryfhau profiad defnyddwyr.

## Ymhlith y meysydd lle nodwyd cyfleoedd i gryfhau trefniadau roedd:

**Gwella gwelededd a hygyrchedd y weithdrefn gwyno ar wefannau a sianeli digidol**





**Cryfhau cysondeb wrth gofnodi cwynion am y Gymraeg, er mwyn sicrhau data dibynadwy ac ystyrlon**

**Sicrhau bod cwynion am y Gymraeg wedi'u hintegreiddio'n llawn i brosesau corfforaethol ehangach, gan gynnwys mecanweithiau adrodd a dysgu**



Pan fo trefniadau cwyno'n glir ac yn effeithiol, maent yn cyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o brofiad defnyddwyr ac at welliant parhaus yn ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth Gymraeg.

# Cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd rhaglen eang o weithgareddau i hyrwyddo cydymffurfiaeth a rhannu arferion da ar draws sectorau. Rydym yn awyddus i gefnogi sefydliadau fel eu bod yn gallu cydymffurfio a gwella ansawdd y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'w defnyddwyr.




## Digwyddiadau wyneb yn wyneb

Cynhaliwyd tri digwyddiad mawr wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn:

- **Cynhadledd genedlaethol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, Dysgu, Datblygu, Defnyddio ym mis Gorffennaf**
- **Seminar ar rannu arferion da ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ym mis Medi**
- **Cynhadledd arferion da agored i bob sefydliad ym mis Tachwedd**

Denwyd dros 400 o fynychwyr i'r tri digwyddiad, gan amlygu gwerth y cyfleoedd i sefydliadau gyfarfod, rhannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

## Sesiynau rhithiol a fforymau

Cynhaliwyd sesiynau rhithiol rheolaidd drwy'r flwyddyn i rannu gwybodaeth ar bynciau penodol, ynghyd â dau gyfarfod yr un o Fforwm Iechyd a Gofal, a Fforwm y Gymraeg yn y Gweithle.

Cynhaliwyd digwyddiad rhithiol i gyflwyno canfyddiadau ein gwaith rheoleiddio 2024-25 yn dilyn cyhoeddi adroddiad Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn. Yn y sesiwn hon, a fynychwyd gan 140 o bobl, pwysleisiwyd gwerth cyd-reoleiddio, dadansoddi canlyniadau monitro, a dulliau ymarferol o wella perfformiad. Cyflwynwyd hefyd ddatganiad polisi'r Comisiynydd ar ddeallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg, gyda thrafodaeth ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiadau technolegol.



## Digwyddiadau thematig

Cynhaliwyd digwyddiadau thematig pellach i rannu arbenigedd ac ysbrydoli newid ymarferol.

**Ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd digwyddiad rhithiol ar y Gymraeg a thechnoleg gyda 184 o gyfranogwyr**







**Ym mis Mawrth 2026 cynhaliwyd digwyddiad ar hybu gwasanaethau Cymraeg a ddenodd 115 o gyfranogwyr, a oedd yn cynnwys sesiwn ar ddulliau newid ymddygiad**

**Rhannwyd enghreifftiau ymarferol gan sefydliadau amrywiol, gan ddangos cynnydd cadarn a gwaith effeithiol ar draws sectorau**



Roedd yr ymateb i'r digwyddiadau hyn yn gadarnhaol, gan ddangos gwerth estyn allan, rhannu arferion da a chefnogi sefydliadau yn eu gwaith o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

**Dyma ymateb rhai mynychwyr i ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn:**

**Cyflwyniadau diddorol ac enghreifftiau ymarferol iawn, diolch i bawb sydd wedi cyflwyno heddi – er bod gwaith o hyd i'w wneud mae cymaint o waith da a chynnydd amlwg wedi digwydd.**

**Gan fy mod yn eithaf newydd i'm swydd roedd yn braf cyfarfod eraill, dysgu mwy am sut mae sefydliadau eraill yn gweithredu a thrafod yr un problemau.**

**It was also really interesting to hear about some of the behavioural science. It's really made me think about how we can support some of our Welsh speakers within the business and promote the language internally, as well as externally. Lots of food for thought.**

# Monitro a chydymffurfio

Yn ystod 2025-26, parhawyd i gynnal arolygon monitro er mwyn asesu lefel cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau o dan safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith.

Cynhaliwyd arolygon yn chwarterol i ganolbwyntio ar y prif heriau sy'n wynebu sectorau penodol, gyda'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn rheolaidd yn ôl i sefydliadau. Roedd yr arolygon yn canolbwyntio ar feysydd cyfathrebu allweddol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, gohebiaeth, gwasanaethau ffôn a ffurflenni ar draws amrywiaeth o sefydliadau a sectorau.

Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Comisiynydd i nodi materion cydymffurfiaeth yn gynnar yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i sefydliadau weithredu ac adrodd ar gamau gwella. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r wybodaeth honno i asesu cynnydd, i herio lle bo angen, ac – lle na welir gwelliant digonol – i ystyried pa gamau rheoleiddio pellach sydd yn briodol. Gellir dod o hyd i'n hadroddiadau thematig ar wefan y Comisiynydd: Adroddiadau Thematig Sectorol.

# Adroddiadau monitro blynyddol

Yn ogystal â gweithgarwch monitro'r Comisiynydd, mae dyletswydd statudol ar sefydliadau cyhoeddus i lunio a chyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith.


Mae'r adroddiadau monitro hyn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi hunan-reoleiddio, ac yn ffynhonnell o wybodaeth werthfawr i'r Comisiynydd wrth lywio blaenoriaethau monitro a gorfodi yn y dyfodol.

Yn ystod 2025-26, cyhoeddodd 120 o sefydliadau adroddiad blynyddol, sef 91% o'r rhai a oedd yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Derbyniwyd hefyd 34 o adroddiadau blynyddol gan sefydliadau sydd yn gweithredu cynlluniau iaith, gan ddarparu tystiolaeth bwysig am arferion sefydliadol, heriau a chamau gwella.

Yn adroddiad y Comisiynydd ar gydymffurfiaeth ar gyfer 2024-25, Grymuso'r Gymraeg drwy Lywodraethiant Cadarn, tynnwyd sylw at yr angen i adolygu ein prosesau mewnol o gasglu a dadansoddi data, er mwyn gallu craffu'n fanylach ar y wybodaeth a gyflwynir gan sefydliadau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn adnabod tueddiadau, deall effaith trefniadau cydymffurfiaeth, a chysylltu data'n fwy effeithiol â meysydd allweddol megis sgiliau'r gweithlu a chwynion.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith i ddechrau datblygu'r maes hwn drwy adolygu'r data a dderbynnir mewn adroddiadau blynyddol, gyda ffocws penodol ar sut mae sefydliadau'n cofnodi ac yn cyflwyno gwybodaeth am sgiliau ieithyddol staff. Roedd hyn yn gam pwysig i wella ein dealltwriaeth o ansawdd a chysondeb y data presennol, ac i osod sylfaen ar gyfer newid pellach.

Yn sgil hyn, a thrwy ystyried datblygiadau cysylltiedig megis gwaith Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cod cenedlaethol sy'n seiliedig ar y CEFR, byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i gryfhau'r data a gesglir drwy adroddiadau blynyddol, fel y gellir ei ddefnyddio'n fwy strategol i fonitro cydymffurfiaeth, asesu effaith, a llywio'r gwaith rheoleiddio a hyrwyddo cydymffurfiaeth yn y dyfodol.



## Holiaduron hunan-asesu


Mae holiaduron hunan-asesu blynyddol yn darparu tystiolaeth allweddol i'r Comisiynydd ynghylch lefelau sicrwydd cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith. Yn ystod 2025–26, derbyniwyd ymatebion gan 148 sefydliad.

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n dangos lefelau uchel o sicrwydd, yn enwedig mewn meysydd megis trefniadau dogfennol, adrodd statudol a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu. Fodd bynnag, mae gwasanaethau rhyngweithiol rheng flaen – megis gwasanaethau ffôn a chynllunio sgiliau'r gweithlu, yn parhau'n heriol mewn rhai sectorau. Mae hyn yn darparu sail glir ar gyfer targedu cymorth a gweithgarwch monitro pellach gan y Comisiynydd.



## Hybu Gwasanaethau

Mae sicrhau bod defnyddwyr y Gymraeg yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt yn ddeilliant rheoleiddio allweddol a rennir rhwng y Comisiynydd a'r sefydliadau a reoleiddir gennym. Fel rhan o'r deilliant hwn, rydym yn disgwyl ac yn cefnogi sefydliadau i fynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn unig, ac i'w hyrwyddo'n rhagweithiol er mwyn cynyddu defnydd gwirioneddol gan y cyhoedd. I gefnogi'r gwaith hwn, lansiwyd tudalen newydd ar wefan y Comisiynydd sy'n galluogi sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.




Diwygiwyd y ddogfen gyngor 'Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg', gan gynnwys enghreifftiau cyfredol o arferion da. Lansiwyd y ddogfen ddiwygiedig mewn digwyddiad rhithiol a ddenodd 115 o gyfranogwyr. Datblygwyd cyfres o fideos hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Chyllid a Thollau EF.



## Ymchwil i brofiadau myfyrwyr

Mae profiadau plant a phobl ifanc wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn un o themâu arbennig y Cynllun Strategol ar gyfer 2025-30.

Rhwng Hydref a Rhagfyr 2025 cynhaliwyd gwaith ymchwil i asesu perfformiad sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt profiad myfyrwyr. Ymatebodd 1544 o fyfyrwyr i'r holiadur ar-lein, a chynhaliwyd 19 o grwpiau trafod ar draws Cymru. Canolbwyntiodd y gwaith ymchwil ar brofiadau myfyrwyr mewn meysydd lle mae gofynion penodol wedi'u nodi yn y safonau, er enghraifft, y gallu i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, mynediad at diwtor personol sy'n medru siarad Cymraeg, a hawl myfyrwyr i fynegi dymuniad i gael llety gyda siaradwyr Cymraeg.

Er bod rhai myfyrwyr yn cael profiadau cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg, mae cyfleoedd yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau a chyd-destunau academaidd, gyda diffyg staff Cymraeg eu hiaith ac anghysondeb gwasanaethau'n parhau i effeithio ar brofiadau rhai myfyrwyr.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad yn ystod 2026-27, byddwn yn disgwyl i bob sefydliad ddangos sut maent yn bwriadu ymateb i'r camau gwella, gan rannu tystiolaeth briodol sy'n dangos sut mae'r camau hynny yn arwain at welliant mesuradwy i brofiad y myfyrwyr.



## Fforwm strategol a chydweithio i wella darpariaeth Gymraeg y sector iechyd

Mae'n ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru i lunio a gweithredu cynlluniau 5-mlynedd i gynyddu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg. Dechreuodd ail gyfnod y cynlluniau hyn yn 2025, ac maent yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau fframwaith polisi **Mwy na Geiriau** Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd fforwm strategol iechyd ar y cyd â thîm **Mwy na Geiriau** er mwyn monitro cynnydd, cryfhau atebolrwydd a chefnogi gweithrediad effeithiol y cynlluniau. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r fforwm yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws ar ddeall y sefyllfa bresennol a chryfhau'r sylfaen ddata ar allu'r sector i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy'r Gymraeg.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau unigol er mwyn trafod eu cynlluniau'n fanylach, gan ganolbwyntio ar gamau ymarferol, anghenion datblygu'r gweithlu, a'r trefniadau sydd eu hangen i symud o gynllunio strategol i weithredu mesuradwy.

Yn ail gyfarfod y fforwm ym mis Mawrth 2026, cafwyd cyfraniadau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd eu cyfraniadau yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu a llwybrau datblygu sgiliau, gan atgyfnerthu'r neges bod cynnydd hirdymor yn dibynnu ar gydlynu addysg, sgiliau a gwasanaethau clinigol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae perthynas waith gadarn a strwythuredig bellach wedi'i sefydlu rhwng swyddfa'r Comisiynydd, Llywodraeth Cymru a'r sector iechyd. Dros y flwyddyn nesaf, bydd y ffocws ar sicrhau bod y gwaith monitro a chefnogaeth yn arwain at gynnydd mesuradwy yn y ddarpariaeth o ymgynghoriadau clinigol drwy'r Gymraeg.

# Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg a'r Cynnig Cymraeg

Mae gwaith tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i ganolbwyntio ar ehangu'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r sefydliadau sy'n dod o dan Fesur y Gymraeg, drwy gydweithio ag ystod eang o fusnesau ac elusennau ledled Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn wirfoddol, ac mae'r tîm yn chwarae rhan allweddol wrth gynnig arweiniad, cefnogaeth ac anogaeth er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r iaith yn naturiol ac yn hyderus yn eu bywydau bob dydd.

Dros amser, mae nifer cynyddol o sefydliadau wedi dangos ymrwymiad clir i gryfhau eu darpariaeth Gymraeg drwy lunio Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg, gyda'r nod o dderbyn cymeradwyaeth y Cynnig Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r tîm yn canolbwyntio ar sectorau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd, yn ogystal ag elusennau cenedlaethol a rhyngwladol.

**Ar hyn o bryd, mae 187 o sefydliadau wedi derbyn y Cynnig Cymraeg, gyda 90 o gynlluniau datblygu'r Gymraeg wedi'u cyflwyno yn 2025-26.**

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi sefydliadau'r sector preifat nad ydynt mewn sefyllfa i ddatblygu cynlluniau ar hyn o bryd fel eu bod yn cynyddu eu gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn deall yn well sut gallwn gefnogi'r sector bancio, fe wnaethom ymgynghori gyda'r banciau a chymdeithasau adeiladu i ddeall yn well beth oedd y rhwystrau yr oeddynt yn eu hwynebu a beth fyddai'n hwyluso eu gwaith yn y dyfodol. Mae hyn wedi gosod sail inni barhau â'n hymwneud â'r sector yn y flwyddyn ariannol newydd.

## Cydweithio strategol i ddatblygu'r Gymraeg

Cafwyd cyfle sylweddol i ehangu cyrhaeddiad y Cynnig Cymraeg drwy gydweithio â rhaglen ARFOR. Fel rhan o ofynion grant y rhaglen, roedd yn ofynnol i gwmnïau dderbyn y Cynnig Cymraeg, ac roedd hyn yn sail i gydweithio effeithiol rhwng Cymunedau Mentrus, y Gronfa Her a'r tîm Hybu. O ganlyniad, fe dderbyniodd 89 o sefydliadau dempled Cynllun Datblygu'r Gymraeg er mwyn eu galluogi i gynnig mwy o wasanaethau Cymraeg. I adeiladu ar y gwaith hwn rydym yn cydweithio'n agos gyda Busnes Cymru er mwyn datblygu fframwaith clir a fydd yn annog busnesau bach sy'n derbyn cymorth ganddynt i wneud addewidion pendant ynghylch eu darpariaeth Gymraeg. Nod y gwaith yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar yn natblygiad busnesau, ac yn rhan annatod o'u twf a'u cynnig i gwsmeriaid.

Datblygwyd hefyd bartneriaeth agos gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru er mwyn cefnogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol i greu eu cynlluniau datblygu. Erbyn hyn, mae 14 Cyngor wedi llunio cynlluniau, gyda phedwar yn symud ymlaen at dderbyn y Cynnig Cymraeg. Mae'r gwaith hwn wedi tynnu sylw at heriau cyffredin ar draws y sector gwirfoddol, ac mae cynlluniau ar y gweill gyda'r Mentrau Iaith a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  i fynd i'r afael â'r heriau hyn.



Yn y maes iechyd, cynhaliwyd cynllun peilot newydd yn ystod y flwyddyn i gefnogi darparwyr gofal sylfaenol, er mwyn sicrhau bod un feddygfa ym mhob Bwrdd Iechyd yn llunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg ac yn gweithio tuag at y Cynnig Cymraeg. Mae'r cynllun peilot hwn wedi dangos pa gymorth sydd ar gael i feddygfeydd, gan gynnwys rôl swyddogion iaith, academïau a chlystyrau. Bydd y peilot yn sail i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, gyda'r bwriad o gefnogi mwy o feddygfeydd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn unol â gofynion fframwaith rheoleiddio Medr, cydnabyddir bod gan ddarparwyr nad ydynt yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg rôl bwysig i'w chwarae wrth wella profiad defnyddwyr gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Dros y flwyddyn, cwblhawyd y gwaith o adnabod y sefydliadau hyn, ac mae cynlluniau clir ar waith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu gallu a'u hyder i gynnig gwasanaethau Cymraeg.

Mae cydweithio llwyddiannus yn parhau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cydnabod  rôl allweddol y sector creadigol yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r  Gymraeg ac yn cryfhau ei phresenoldeb ym mywyd diwylliannol Cymru. Eleni cynhaliwyd gweithdai gyda rheolwyr perthynas Cyngor y Celfyddydau i'w cefnogi i sicrhau bod sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn gan y Cyngor yn gweithio tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg.

**Bellach mae 22 o sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi derbyn y Cynnig Cymraeg, gyda 7 o'r rhain yn ei dderbyn eleni.**




Yn dilyn canlyniadau'r gwaith ymchwil a wnaed i ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg rydym yn gweithio yn strategol gyda Chwaraeon Cymru er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn elfen graidd o drefniadau cyllido yn y maes chwaraeon. Arweiniodd hyn at gynnwys y Gymraeg fel un o brif bileri gofynion y fframwaith cyllido newydd ar gyfer cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol, Arwain Cymru. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen wrth sicrhau bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn chwarae rhan weithredol wrth normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym wedi cyhoeddi modiwl e-ddysgu ar ein gwefan sy'n annog hyfforddwyr i ddefnyddio pa bynnag sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, yn ogystal â chreu cardiau fflach gyda thermau Cymraeg syml i'w defnyddio mewn sesiynau hyfforddi.

Fe wnaeth y bwrdd crwn chwaraeon a sefydlwyd yn sgil yr ymchwil a wnaed i ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg gryfhau ein dealltwriaeth a'r cyfleoedd sydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes chwaraeon.

## Cynnal sesiynau hyfforddi i fusnesau ac elusennau




**Eleni rydym wedi cynnal 14 o sesiynau hyfforddi gyda 164 o unigolion yn mynychu.**


Mae'r sesiynau yn bennaf yn cael eu cynnal i gefnogi cynlluniau Cronfa Treftadaeth y Loteri, Cronfa Gymunedol y Loteri, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Chyngor y Celfyddydau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan y sefydliadau y maent yn eu cyllido neu yn eu cefnogi. Mae'r sesiynau hyfforddi yn rhannu arferion gorau ar ddylunio dwyieithog, defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhoi cyngor ar sut i fynd ati i greu Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

> **I thought it was great! Answered a lot of questions about moving towards bilingualism, and made what seemed like a daunting (and expensive) task feels way more achievable.**
>
> **Ymateb unigolyn i un o'r sesiynau.**

## Ymgyrch y Cynnig Cymraeg, a dathlu penblwydd Iaith Gwaith

Eleni roedd ymgyrch y Cynnig Cymraeg yn canolbwyntio ar daith sefydliadau tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg a hithau yn 5 mlynedd ers ei sefydlu. Cafwyd blogiau newydd ar ein gwefan ac ar wefan Golwg 360 bob dydd yn ystod yr wythnos gan gwmnïau fel cyfreithwyr JCP, Ymchwil Canser Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru, Cymdeithas Strôc, y Pethau Bychain a mwy. Rhannwyd llawer o gynnwys gan bron i 100 o sefydliadau, gan gynnwys Undeb Rygbi Cymru, yn dangos sut y maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg ac yn cynnig gwell gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

> **Mae nifer o'n cydweithwyr yma yng Nghyfreithwyr JCP yn siarad Cymraeg ac rydym wedi rhoi'r dewis i'n cleientiaid i gysylltu gyda ni yn y Gymraeg ers blynyddoedd. Rydym yn falch iawn o fod yn un o'r rhai cyntaf i dderbyn cymeradwyaeth y Cynnig Cymraeg bum mlynedd yn ôl ac rwy'n falch o allu dweud fod ein hymrwymiad i'r Gymraeg yr un mor gryf ag erioed.**
>
> **Cyfarwyddwr a Chydlynydd y Gymraeg gyda Chyfreithwyr JCP**




Crëwyd ffilmiau byrion gyda sefydliadau amrywiol hefyd sy'n arloesi wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd – Prifysgol Wrecsam, Cyngor Rhondda Cynon Taf, GISDA, Principality a Bwrdd Iechyd Cwm Taf a rhannwyd y cyfan ar ddechrau'r ymgyrch mewn digwyddiad llwyddiannus yn Wrecsam. Bu'r digwyddiad yn gyfle i sefydliadau o bob math drafod, rhannu profiadau, ystyried yr heriau a chreu cysylltiadau.

Buom yn cydweithio gyda Llenyddiaeth Cymru a Bardd Plant Cymru i greu cerdd i annog eraill i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddathlu bathodyn Iaith Gwaith, a chrëwyd **fideo arbennig** gyda 15 o ysgolion ar draws Cymru.

Ymgyrch arall sydd yn sicr yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg. Dyma gyfle penodol i dynnu sylw at y cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i annog pobl i'w defnyddio. Eleni, rhoddwyd cyhoeddusrwydd arbennig i gynllun Iaith Gwaith gan ei fod yn dathlu ugain mlwydd oed. Mae brand Iaith Gwaith yn hollbwysig gan ei fod yn dangos i bobl bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg a thrwy hynny yn arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng 22 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2025. Cefnogwyd yr ymgyrch gan dros 100 o sefydliadau yn dathlu ac yn rhoi gwybod pa wasanaethau Cymraeg maent yn eu cynnig i'r cyhoedd ac roedd yn braf gweld y bwrlwm hwnnw ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'r ymgyrch buom yn cydweithio gydag unigolion fel y Doctor Cymraeg, Katie Owen, Lloyd Lewis, a Chris Roberts gan arwain at gynnydd yn y nifer a welodd gynnwys yr ymgyrch ar ein cyfryngau cymdeithasol.



# Safoni enwau – datblygu'r rhestr a dylanwadu ar bolisi

Mae sefydliadau o bob math yn troi atom yn gyson er mwyn cael cyngor am ffurfiau safonol enwau lleoedd a materion yn ymwneud ag enwau lleoedd. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi cynnig cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gweithredu ein cyfrifoldeb statudol i gynghori Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru.




Buom hefyd yn cydweithio â gwasg Harper Collins i ddiweddaru eu polisi golygyddol ar gyfer ymdrin ag enwau Cymraeg ar draws eu holl gynnyrch, gan gynnwys atlasau poblogaidd a blaenllaw. Yn ogystal ag ymrwymo i fabwysiadu ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru, maent bellach yn cynnwys enwau Cymraeg ar gyfer pob anheddiad – gan gynnwys aneddiadau bychan – ac yn rhoi blaenoriaeth i'r enwau Cymraeg.

Yn dilyn llwyddiant ein prosiect peilot ar enwau llynnoedd Eryri, rydym wedi parhau i gydweithio â swyddogion a wardeiniaid i safoni enwau tirweddol yn y Parc gan gwblhau prosiectau ar enwau mynyddoedd, bylchau, rhaeadrau a llynnoedd llai. Mae'r argymhellion hyn wedi eu cyflwyno i'r Arolwg Ordnans er mwyn iddynt ddiweddaru eu cronfeydd data a'u cynnyrch mapio ar eu sail.

Er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i ynganu enwau lleoedd Cymraeg buom yn cydweithio â'r Llyfrgell Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynnal gweithdy recordio enwau. Gwahoddwyd Wardeiniaid y Parc i gyfrannu eu lleisiau er mwyn sicrhau mai wardeiniaid lleol sy'n adnabod eu hardaloedd yn dda sy'n cynnig arweiniad am ynganiad yr enwau drwy'r ffeiliau sain ar ein gwefan. Bydd yr enwau hyn yn cael eu cyhoeddi yn Enwau Lleoedd Safonol Cymru maes o law. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fideo newydd ar Enwau Lleoedd.



Mae'r bartneriaeth barhaus â Chomisiynydd y Gymraeg i safoni enwau tirweddol Parc Cenedlaethol Eryri yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i warchod a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Drwy gyfuno arbenigedd academaidd â phrofiadau trigolion lleol, mae'r gwaith yn cefnogi cywirdeb, defnydd ac amlygrwydd enwau tirweddol Cymraeg ar fapiau a llwyfannau digidol, gan sicrhau eu bod yn parhau'n elfen graidd o gymeriad diwylliannol ac ieithyddol Eryri.

**Cyfarwyddwr Rheoli Tir**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

We are extremely grateful to the Welsh Language Commissioner for their expert guidance during our review of place-name data in Wales. Following their advice, we adopted a dual-language format (Welsh / English) across our publications, updating approximately 1,000 entries in the Collins Bartholomew digital database and our Collins and AZ Road Atlases.

**Gwasg Harper Collins**

# Amcan 2

**Cynyddu cyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg gan greu amgylcheddau lle gall pobl ddefnyddio'r iaith yn hwylus ac yn gyson.**





# Strategaethau hybu

Ym mis Mai 2025, pasiwyd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n cynnwys darpariaethau penodol i adolygu safonau hybu'r Gymraeg. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg i ddiwygio'r safonau hybu fel bod sefydliadau'n nodi'n gliriach sut y byddant yn cefnogi cymunedau o arwyddocâd ieithyddol uchel ac yn cynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r argymhellion hyn ac wedi nodi y byddant yn sail i ddatblygiadau polisi pellach.

Erbyn 2028, daw cyfnod strategaethau hybu 18 o sefydliadau i ben, gan olygu y bydd gofyn statudol ar y sefydliadau hyn i adolygu a diwygio eu strategaethau. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r safonau hybu yn ystod 2026-27. Rydym yn ystyried sut orau i sicrhau bod sefydliadau yn parhau i allu cydymffurfio â'u gofynion statudol yn y cyfnod trosiannol hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu at yr adolygiad, gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy fonitro, ymgysylltu â sefydliadau, a gwaith polisi ehangach. Yn benodol, mae hyn yn adlewyrchu galwadau maniffesto'r Comisiynydd i gryfhau'r fframwaith strategaethau hybu fel offeryn cynllunio ieithyddol cymunedol mwy effeithiol, ac i gynyddu rôl y Comisiynydd wrth gefnogi, monitro a gwerthuso gweithrediad y strategaethau hyn.

Yn y cyfamser, cryfhawyd ymgysylltiad parhaus â'r maes, gan gynnwys drwy fynychu fforymau iaith rhanbarthol, cyflwyno ar strategaethau hybu pum mlynedd i fentrau iaith, a chynnal trafodaethau rheolaidd gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn sail bwysig ar gyfer cyfraniad y Comisiynydd i'r adolygiad yn 2026-27, ac ar gyfer gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i wireddu fframwaith cryfach a mwy cydlynol ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

## Hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau

Rydym yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Chanolfan Bedwyr, i ystyried datblygiadau diweddar ym maes technoleg a'r Gymraeg ac i ymateb iddynt mewn ffordd sy'n cefnogi hawliau a phrofiadau defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd datganiad polisi rheoleiddiol y Comisiynydd ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (DA), ar faes Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Mae'r datganiad hwn yn nodi disgwyliadau clir ynghylch sut y dylai sefydliadau cyhoeddus ystyried ac ymgorffori'r Gymraeg wrth ddatblygu, caffael neu ddefnyddio systemau deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i DA chwarae rôl gynyddol mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod y datganiad yw sicrhau bod technoleg newydd yn ategu, nid yn tanseilio'r Gymraeg.

I gefnogi'r gwaith hwn, cynhaliwyd digwyddiad rhithiol ar dechnoleg a'r Gymraeg i ddod ag arbenigwyr, datblygwyr a swyddogion TG ynghyd i rannu gwybodaeth a dysgu am y datblygiadau diweddaraf. Lluniwyd canllawiau byr ar y defnydd o'r Gymraeg a thechnoleg, gyda ffocws ymarferol ar gamau y gall sefydliadau eu cymryd yn awr.

Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda'r un rhanddeiliaid i annog rhannu data mewn ffordd briodol gan sefydliadau cyhoeddus. Mae sicrhau bod data Cymraeg ar gael yn hanfodol os yw technolegau newydd i weithio'n effeithiol a theg i ddefnyddwyr y Gymraeg.



# Cymraeg yn y gweithle

Mae cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes strategol allweddol i'r Comisiynydd, ac rydym yn chwarae rôl ganolog wrth gydlynu ystod o weithgareddau yn y maes hwn, gan weithio'n agos gyda phartneriaid strategol i gefnogi newid ymarferol a chynaliadwy ar draws sectorau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol, **Dysgu, Datblygu, Defnyddio** ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Daeth bron i 200 o bobl ynghyd i drafod sut y gellir cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Amlygodd y digwyddiad frwdfrydedd a pharodrwydd clir gan sefydliadau i ddysgu a gwneud mwy yn y maes hwn.

Dyma fideo a grëwyd i grynhoi'r digwyddiad.

Yn ystod yr hydref, lansiwyd pecyn Modelau Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. Pwrpas y modelau polisi yw rhoi arweiniad clir i sefydliadau ar lunio polisïau sy'n hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, yn unol â gofynion y safonau. Bwriad y modelau yw annog polisïau uchelgeisiol sy'n symud sefydliadau ar hyd continwwm defnydd iaith, gan greu mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith. Disgwylir i hyn gyfrannu at hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, yn y gweithle ac yn ehangach, gan gefnogi amcanion Cymraeg 2050.

Datblygwyd adnoddau amrywiol a chynhaliwyd fforymau ymarferol gyda dros 260 o fynychwyr. Rhannwyd profiadau ac arferion da gan ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Swyddfa Ymddygiad Annibynnol yr Heddlu, Amgueddfa Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a phrosiect ARFer, Prifysgol Bangor. Lansiwyd hefyd theori newid ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, ynghyd â chyfres o weithdai i gyflwyno a chymhwyso'r adnodd, a dderbyniodd adborth cadarnhaol iawn gan fynychwyr.

> **"Diolch o galon am gymryd yr amser i gynnal y gweithdy. Roedd yn werthfawr tu hwnt a da gallu sgwrsio gydag eraill ac ymarfer yr hyn [sydd yn y theori newid].**

Ar hyd y flwyddyn, cafodd y gwaith ei gefnogi gan Grŵp Llywio o bartneriaid allanol a strategol, y mae eu mewnbwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at siapio cyfeiriad y gwaith a chryfhau ei effaith.

Wrth edrych ymlaen at 2026-27, rydym yn awyddus i adeiladu ar y sylfaen hon drwy ddwysáu ein hymdrechion i fesur a chynyddu defnydd o'r Gymraeg, ehangu'r cydweithio strategol, a chryfhau'r dull cenedlaethol o gefnogi sefydliadau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan naturiol o fywyd gwaith bob dydd, gan gyfrannu at y nod o ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050.

# Pecyn addysg a sioe

Buom yn diweddaru ein pecyn addysg i ysgolion uwchradd fel ei fod hefyd yn addas i ddisgyblion cynradd. Mae gweithgareddau'r pecyn addysg yn rhoi cyfle i blant drafod a rhannu sut maent yn defnyddio ac yn dysgu'r Gymraeg, a'r cyfleoedd i'w defnyddio yn yr ysgol ac yn eu bywydau bob dydd. Nod y pecyn yw codi ymwybyddiaeth o waith y Comisiynydd ac annog defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun.

Ymwelodd y sioe Geiriau gan Mewn Cymeriad ag ysgolion ledled Cymru, gan gyrraedd tua 2,500 o ddisgyblion. Ei phwrpas yw trafod y Gymraeg a hunaniaeth Gymreig, ysgogi trafodaeth, ac annog pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn hyderus.



# Amcan 3

## Arwain y gwaith o eiriol dros y Gymraeg gan warchod a hyrwyddo buddiannau siaradwyr.





## Cyflwyno a chyhoeddi polisi gorfodi diwygiedig

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Polisi Gorfodi diwygiedig yn ystod 2024-25 er mwyn casglu barn y cyhoedd a sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

Dadansoddwyd yr ymatebion a chafodd adroddiad ei gyhoeddi yn crynhoi'r prif themâu, gan gynnwys cydreoleiddio, y drefn gwyno, a defnyddio adnoddau a materion ymarferol. Gwnaed newidiadau pellach i'r polisi ar sail yr adborth a dderbyniwyd.

Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd y Comisiynydd y polisi i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, gan gadarnhau bod canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u hystyried yn llawn a bod y dogfennau ategol, gan gynnwys yr asesiad effaith cydraddoldeb, wedi'u cyhoeddi.

Mae'r polisi yn mabwysiadu dull cytbwys o reoleiddio sy'n pwysleisio cefnogi ac arwain sefydliadau, gan gadw'r gallu i gymryd camau gorfodi cadarn pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg.

Cymeradwywyd y polisi gan Weinidogion Cymru ar 24 Mawrth 2026.

## Ymdrin â chwynion a chynnal ymchwiliadau statudol Mesur y Gymraeg

Mae delio â chwynion yn rhan ganolog o'n gwaith rheoleiddio. Drwy dderbyn ac ymchwilio i gwynion, gallwn adnabod lle nad yw sefydliadau'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a chymryd camau i wella'r sefyllfa. Nid yn unig mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth, ond mae hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella profiad defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Pan fo tystiolaeth yn awgrymu methiant i gydymffurfio, gallwn gynnal ymchwiliad statudol er mwyn sefydlu'r ffeithiau a dod i gasgliad ffurfiol. Os canfyddir bod methiant wedi digwydd, gallwn osod camau gorfodi ar y sefydliad. Mae camau gorfodi yn fesurau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gymryd camau i unioni'r sefyllfa, atal yr un methiant rhag digwydd eto, a gwella ei drefniadau ar gyfer y dyfodol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, weithredu newidiadau i weithdrefnau mewnol, darparu hyfforddiant i staff, paratoi cynllun gweithredu, neu sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n gyson ac effeithiol.

Mae'r dull hwn yn sicrhau nid yn unig bod methiannau'n cael eu cywiro, ond bod gwelliannau cynaliadwy yn cael eu gwneud dros amser.

**Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gweithgarwch cwynion, ymchwiliadau a chamau gorfodi a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.**

Noder nad yw'r ffigurau yn y tabl isod yn cyfateb yn union, gan fod rhai penderfyniadau'n ymwneud â chwynion a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, tra bo rhai cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn adrodd yn dal heb benderfyniad.

| **Nifer y cwynion dilys a dderbyniwyd** | 129 (+2 annilys = 131) |
|---|---|
| **Nifer y cwynion a ymchwiliwyd iddynt** | 36 |
| **Nifer y cwynion y penderfynwyd peidio ag ymchwilio iddynt** | 48 |
| Dim amheuaeth o fethiant | 13 |
| Ymchwiliad i'r un mater eisoes ar agor | 0 |
| Adnoddau sydd eu hangen i ymchwilio i'r gŵyn yn anghymesur â'r budd a/neu'r canlyniad disgwyliedig o'r ymchwiliad | 0 |
| Datrysiad i'r mater wedi ei gyflawni gan y sefydliad o'i wirfodd | 23 |
| Ymrwymiad gan y sefydliad i gymryd camau i ddatrys y mater | 11 |
| Rhesymau eraill | 1 |
| **Nifer yr ymchwiliadau a derfynwyd** | 0 |
| **Nifer yr ymchwiliadau y dyfarnwyd arnynt** | 17 |
| **Nifer yr ymchwiliadau ar agor ar 31 Mawrth** | 25 |
| **Nifer y safonau unigol (nid ymchwiliadau) y dyfarnwyd arnynt** | 61 |
| **Nifer y dyfarniadau o fethiant i gydymffurfio â safonau unigol** | 49 |

| **Categori'r safonau y dyfarnwyd arnynt** | |
|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | 45 |
| Gweithredu | 3 |
| Llunio polisi | 12 |
| Hybu | 0 |
| Cadw cofnodion | 0 |
| Materion atodol | 1 |
| **Camau gorfodi neu adfer a osodwyd** | |
| Cymryd camau i atal methiant | 39 |
| Paratoi cynllun gweithredu | 5 |
| Cyhoeddusrwydd | 0 |
| Rhoi cyngor | 2 |
| Rhoi argymhellion | 6 |

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys data cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae gwybodaeth gyfatebol ar gael yn Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon y Comisiynydd ar gyfer bob blwyddyn berthnasol.

## Cyngor Ynys Môn

Derbyniwyd cwyn bod y Cyngor wedi torri safonau llunio polisi wrth gyhoeddi dogfennau am ad-drefnu addysg ôl-16. Disgrifiwyd y broses fel "ymgysylltu cynnar", ond roedd y dogfennau'n cyflwyno opsiynau penodol ac yn ceisio barn y cyhoedd, ac felly roedd yn gyfystyr ag ymgynghoriad polisi. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod hyn yn gofyn am asesu effaith ar y Gymraeg o'r cychwyn, a bod angen bod yn glir gyda'r cyhoedd am ystyriaethau ieithyddol a'u cyfle i leisio barn.

## Coleg Gwent

Derbyniwyd cwyn ynghylch proses y Coleg o ystyried y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad i ddod â'r cwrs Cymraeg safon uwch i ben ar Gampws Blaenau Gwent. Ni ddangosodd y Coleg ei fod wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad, ac felly dyfarnwyd ei fod wedi methu cydymffurfio â'r tair safon llunio polisi.

Gosodwyd camau gorfodi er mwyn i'r Coleg ddatblygu canllaw i staff sy'n egluro'r gofynion wrth asesu'r effaith ar y Gymraeg. Roedd rhaid i'r Coleg hefyd gynnal sesiwn hyfforddiant i staff yn benodol o fewn y maes ad-drefnu addysg yn tynnu sylw at y methiannau yn yr achos hwn.

## Cyngor Bro Morgannwg

Cynhaliwyd ymchwiliad statudol ar ôl cwyn gan riant nad oedd dewis iaith y teulu'n cael ei barchu gan Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Canfuwyd diffygion difrifol yn y ddarpariaeth Gymraeg, gan gynnwys mewn gohebiaeth, cyfarfodydd a chyfweliadau statudol (hyd yn oed gyda phlant), oedi cyn derbyn dogfennau Cymraeg, a methiant i gofnodi dewis iaith yn gywir.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y Cyngor wedi torri nifer o safonau'r Gymraeg. O ganlyniad, gosodwyd camau gorfodi i wella trefniadau cyfieithu, sefydlu prosesau clir ar gyfer cofnodi a pharchu dewis iaith, a chryfhau hyfforddiant staff, gan bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg cadarn mewn sefyllfaoedd llesiant a diogelu.

## Ymdrin â chwynion a chynnal ymchwiliadau statudol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

| Cyfanswm cwynion | Cwynion dilys |
|---|---|
| 36 | 16 |

| Nifer yr ymchwiliadau | Nifer yr argymhellion yn sgil ymchwiliad |
|---|---|
| 2 | 3 |

Agorwyd ymchwiliad yn dilyn anfodlonrwydd ynghylch neges destun uniaith Saesneg a anfonwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn ystod prawf o Rybuddion Brys Llywodraeth y DU ym mis Medi 2025. Er bod y prawf blaenorol yng Nghymru wedi bod yn ddwyieithog, anfonwyd y neges hon yn Saesneg yn unig gyda dolen at fersiwn Gymraeg, er gwaethaf rhybuddion gan y Comisiynydd ynghylch gofynion y cynllun iaith.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y neges yn gyfathrebiad at nifer fawr o bobl yng Nghymru ac felly'n ddarostyngedig i'r gofynion ieithyddol. Canfuwyd methiant i gydymffurfio, gan nad oedd y drefn yn sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth hanfodol yn y Gymraeg nac yn darparu sicrwydd y byddai methiannau tebyg yn cael eu hosgoi yn y dyfodol.

## Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Gall unigolyn ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth person neu sefydliad â'i ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolyn arall. Mae rhywun yn ymyrryd â rhyddid unigolyn os yw'n dweud wrthynt i beidio â defnyddio'r Gymraeg, neu'n dweud y byddai'r unigolyn yn dioddef anfantais o ganlyniad i wneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i gynnal ymchwiliad o dan y ddarpariaeth hon.

Ar sail profiad y Comisiynydd o weithredu Rhan 6 y Mesur dros nifer o flynyddoedd, mae'n amlwg bod y ddarpariaeth statudol hon yn gosod egwyddor glir o ran hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, ond bod dichonolrwydd ei gweithrediad yn ymarferol yn dibynnu ar brofi trothwy cymharol uchel o ran ymyrraeth. Mewn sefyllfaoedd lle ceir pwysau anffurfiol, neu ymddygiad amhriodol nad yw'n cynnwys gwaharddiad penodol neu ganlyniad andwyol pendant, gall fod yn anodd cyrraedd y meini prawf cyfreithiol ar gyfer ymyrraeth o dan y Mesur, er y gall sefyllfaoedd o'r fath danseilio defnydd unigolion o'r Gymraeg yn ymarferol.

Fodd bynnag, gan na dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod y flwyddyn hon, nid oes tystiolaeth achos-benodol eleni sy'n caniatáu asesiad pellach o weithrediad y ddarpariaeth yn ymarferol. Bydd profiad achosion yn y dyfodol yn parhau i lywio barn y Comisiynydd ar ddigonolrwydd y fframwaith presennol i warchod rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.

# Gwaith craffu a dylanwadu ar bolisi

Un ffordd bwysig y gallwn ni ymyrryd yn nyfodol yr iaith Gymraeg yw drwy ddylanwadu a dwyn perswâd ar wneuthurwyr polisi. Mae'n hanfodol sicrhau polisïau a deddfwriaeth uchelgeisiol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith, yn ogystal â sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio'n ehangach ar draws agendâu polisi cyhoeddus.

Fel rhan o'n gwaith dylanwadu a chraffu, rydym yn canolbwyntio ar faterion strategol a chenedlaethol sydd fwyaf tebygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i siaradwyr. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw arbennig i feysydd allweddol fel addysg a sgiliau, iechyd a gofal, yn ogystal â pholisïau sy'n effeithio ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymatebwyd i gyfanswm o 36 o ymgynghoriadau, gan adlewyrchu ehangder a dwyster ein hymrwymiad i ddylanwadu ar bolisi er budd y Gymraeg.



## Addysg a sgiliau

Gan fod plant a phobl ifanc yn thema arbennig yn ein cynllun strategol, mae craffu ar bolisi a deddfwriaeth ym maes addysg a sgiliau yn flaenoriaeth barhaus. Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymatebwyd i nifer fawr o ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth, gan gynnwys cyhoeddi briff polisi ar brif heriau twf addysg cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd y briff i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ac mae'n tynnu sylw at heriau parhaus megis cynllunio twf, cludiant, datblygu gweithlu dwyieithog, addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a'r Gymraeg Safon Uwch.

Ategwyd y materion hyn ymhellach drwy ymatebion i ymchwiliadau ac ymgynghoriadau ar recriwtio a chadw athrawon, cymwysterau Cymraeg Safon Uwch, a chanllawiau teithio i ddysgwyr.

Yn ogystal, bu datblygiadau pwysig ym maes addysg drydyddol gyda sefydlu Medr. Rydym wedi cyfrannu at ei waith drwy gymryd rhan mewn gweithgor a thrwy ymateb i ymgynghoriadau ar y system reoleiddio newydd, amod y Gymraeg, prentisiaethau, dyfodol addysg drydyddol a chanllawiau cwricwla lleol. Ym mhob achos, pwysleisiwyd yr angen am gynllunio mwy strategol a buddsoddiad uwch er mwyn cynyddu darpariaeth Gymraeg yn y sector drydyddol, fel sail i gynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr a meithrin gweithlu gwirioneddol ddwyieithog



## Hyfywedd a defnydd y Gymraeg

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ymchwil ar faes Eisteddfod yr Urdd a oedd yn canolbwyntio ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Prif bwrpas yr ymchwil oedd datblygu gwell sail tystiolaeth er mwyn hwyluso ein gwaith cynllunio i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg.

Fe wnaeth dros 1600 o blant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru ymateb i'r holiadur a chynhaliwyd 6 grŵp ffocws. Roedd rhai o brif ganfyddiadau'r ymchwil yn cynnwys:

- Bod defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn gymharol gyfyngedig
- Mae siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg gartref fel plant ifanc, a'r rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach
- Mae defnydd y Gymraeg ar y cyfryngau digidol yn isel iawn, ac mae cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc yn nodi nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn aml iawn mewn gweithgareddau tu allan i'r ysgol
- Er bod diffyg defnydd y Gymraeg yn destun pryder sylweddol, roedd agweddau plant a phobl ifanc tuag at yr iaith Gymraeg yn llawer mwy cadarnhaol

Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn ategu rhai o brif ganfyddiadau adroddiadau eraill a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, er enghraifft adroddiad ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac adroddiad **Cymraeg i bawb** y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, gan dynnu sylw'n benodol at rôl y cyfryngau digidol a gweithgareddau chwaraeon.

Ers ei gyhoeddi, cynhaliwyd dau ddigwyddiad bwrdd crwn i ddechrau gweithredu ar y canfyddiadau: un gyda Chwaraeon Cymru a chyrff rheoli chwaraeon i drafod rôl chwaraeon yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a'r llall ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y cyfryngau digidol.

Yn ystod y flwyddyn, ymatebwyd i nifer o ymgynghoriadau a chyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar ar gynyddu'r defnydd o'r iaith, gan gynnwys cyfraniad i ymchwiliad **Cymraeg i bawb** y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Canolbwyntiodd y dystiolaeth ar chwaraeon a hamdden, digwyddiadau diwylliannol, y cyfryngau digidol a'r gweithle fel meysydd blaenoriaeth, gan bwysleisio hefyd botensial y safonau hybu a dyletswydd awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i fabwysiadu a gweithredu strategaethau pum mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg.



## Iechyd a gofal

Mwy na Geiriau 2022–27 yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal, ac mae gwella gofal dementia i siaradwyr Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol ynddo. Yn sgil hyn, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gefnogi a dylanwadu ar ddatblygiad strategaeth dementia newydd i Gymru.

Yn dilyn cyhoeddi briff polisi ar sefyllfa gofal dementia i siaradwyr Cymraeg, ail-sefydlodd Llywodraeth Cymru is-grŵp dementia a'r Gymraeg. Rydym wedi cyd-gadeirio'r is-grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu cyngor i'r Llywodraeth wrth iddynt lunio strategaeth dementia newydd. Ym mis Tachwedd cyflwynodd y grŵp ddogfen fanwl yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella gofal dementia i siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, cynhaliodd swyddogion y Comisiynydd weithdy yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Alzheimer's yn Llundain fis Medi.

Ers cyflwyno'r cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar strategaeth ddrafft dementia. Rydym wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ac mae disgwyl i'r is-grŵp ail-ddechrau cyfarfod yn rheolaidd i roi cyngor pellach wrth i'r strategaeth derfynol gael ei llunio ac wrth i'r gwaith o'i gweithredu ddechrau.

Y tu hwnt i ofal dementia, rydym hefyd wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau pwysig ym maes iechyd a gofal dros y flwyddyn, gan gynnwys ymgynghoriad Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar eu strategaeth addysg newydd, a darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar Fil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

Canolbwyntiodd ein tystiolaeth i'r pwyllgor ar bwysigrwydd sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i drafod penderfyniadau am ddod â'u bywyd i ben drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y broses graffu, gwnaed sawl gwelliant i'r Bil mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg, a chyfeiriwyd sawl gwaith at dystiolaeth y Comisiynydd yn ystod y trafodaethau.

## Etholiad Senedd Cymru 2026 – cyhoeddi cynigion maniffesto Comisiynydd y Gymraeg

Cyhoeddwyd dogfen maniffesto fis Mehefin a oedd yn amlinellu cyfres o ymyraethau sydd yn ein barn ni â'r potensial i gael dylanwad sylweddol ac uniongyrchol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith. Roedd nifer o'r cynigion yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod yn ein cynllun strategol ar gyfer 2025-30 ac sy'n cael eu hategu yn ein hadroddiad 5-mlynedd. Mae'r cynigion yn gofyn am weithredu ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth i hwyluso gwaith ei phartneriaid allweddol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg.

# Delio â chwynion am fusnesau ac elusennau

Eleni derbyniwyd 47 cwyn yn erbyn busnesau neu elusennau, a llwyddwyd i gael datrysiad cadarnhaol mewn 21 o'r achosion yma. Golyga hyn mewn 21 o'r achosion bod sefydliad wedi cydnabod methiannau ac wedi ymrwymo i gamau gwella, gan gynnwys datblygu Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

Y prif faterion sy'n codi yw sefydliadau yn gwrthod derbyn dogfennau Cymraeg, gohebiaeth uniaith Saesneg, a diffyg gwasanaethau digidol Cymraeg.

Er ei fod yn gadarnhaol bod nifer y sefydliadau yn barod i drafod ac ymateb, mae rhai sectorau'n parhau i ddangos diffyg ymgysylltiad neu mae eu hymateb yn gyfyngedig. Mae hyn yn arbennig o wir am feysydd parcio preifat.




**Diolch i ymyrraeth swyddfa'r Comisiynydd, dwi wedi cael datrysiad gan y banc, oedd yn gwrthod derbyn dogfennau Atwrnai arhosol ar gyfer fy Mam yn Gymraeg.**

**Gresyn fy mod wedi gorfod dod atoch o gwbl, ond oni bai am eich help, dwi'n amau'n gryf y byswn i dal mewn twll hefo'r banc, a chyfrifon Mam wedi eu rhewi.  Doedd dim trafod yn bosib hefo'r unigolyn ar y ffôn, ac roedd yn hollol bendant na fuasai'r banc yn derbyn y dogfennau.**

**Ond mae'n rhaid i mi ganmol y banc yn Abertawe, sydd wedi bod yn wych, ac yn gadael i mi wybod bob cam o'r ffordd beth oedd yn digwydd.**

**Gobeithio bydd y neges rywsut yn cael ei basio i staff y banc am yr iaith Gymraeg, ond dwi'n amau dim, na fydd hyn yn digwydd eto i rywun arall.**

**Diolch eto am eich help ar amser reit anodd i ni fel teulu.**

## Digwyddiadau cenedlaethol

Cynhaliwyd stondin a phresenoldeb ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam a bu'r wythnos yn llwyddiannus tu hwnt gyda'r stondin yn llawn bwrlwm drwy'r wythnos. Lansiwyd ein hymchwil ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a bu sylw a chyhoeddusrwydd yn y wasg a'r cyfryngau ar sawl achlysur. Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol gyda nifer o bartneriaid a rhoddwyd sylw i'r gwaith enwau lleoedd.

Roedd amserlen lawn o weithgareddau ar ein stondin ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd gyda chyfle i drafod gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Cyllid a Thollau a chwmni Penodi yn ogystal ag eitemau cerddorol ac adloniant i blant. Cynhaliwyd ein prif ddigwyddiad ar y bore dydd Llun lle buom yn amlinellu ein gweledigaeth yn dilyn cyhoeddi ein cynllun strategol a'n maniffesto. Cyhoeddwyd ein datganiad polisi ar ddeallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg a rhoddwyd sylw i'r digwyddiadau hyn yn ystod yr wythnos yn y wasg.

Bu cydweithio agos gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, y Coleg Cymraeg, TUC a nifer o bartneriaid eraill yn ystod yr wythnos hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu ac yn hyrwyddo ein gwaith a'r iaith Gymraeg ar draws nifer o feysydd. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod lansiwyd ein helusen am y flwyddyn sef Ymchwil Canser Cymru.

## Cylchlythyron

Mae Cylchlythyron y Comisiynydd yn cael eu dosbarthu i'n rhanddeiliaid  ac yn cyfeirio at holl elfennau gwahanol ein gwaith. Fel hyn rydym yn gallu dathlu'n llwyddiannau a rhannu'r neges am y gwaith sydd yn cael ei gyflawni bob chwarter. Mae modd darllen ein holl gylchlythyron yma.

## Cryfhau'r sail dystiolaeth am y Gymraeg

Mae deall rhagor am brofiad siaradwyr Cymraeg o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd yn gwbl greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym wedi parhau i dynnu sylw at yr angen am Arolwg Defnydd Iaith cenedlaethol a fydd yn rhoi data cadarn i ni am batrymau defnydd iaith pobl ar draws y wlad. Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diwethaf yn 2019-20, a bu'n rhaid ei ddirwyn i ben o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae angen arolwg pellach er mwyn deall sut mae'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth yn sgil y pandemig, yn ogystal â ffactorau eraill, wedi effeithio ar batrymau defnydd iaith.

Rydym wedi bod yn comisiynu ein harolygon barn ein hunain ac eleni rhannwyd arolwg dolen agored er mwyn cyrraedd at gynulleidfaoedd ehangach. Dyma flas o'r hyn a ddysgom drwy'r arolwg:



**30% o oedolion yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cynyddu yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf, a thua hanner y sampl yn teimlo bod cyfleoedd wedi aros yr un fath.**








**57% o oedolion oedd yn siarad Cymraeg yn teimlo eu bod yn gweld ac yn clywed y Gymraeg o'u cwmpas yn fwy nag o'r blaen.**

**69% o blant a phobl ifanc eisiau defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith un dydd, ac roedd 72% yn credu y byddai gallu siarad Cymraeg yn eu helpu i gael swydd yn y dyfodol.**




# Cyhoeddi adroddiad 5-mlynedd

Mae cyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd am sefyllfa'r Gymraeg yn ofyniad statudol. Ond mae'n darparu cyfle i ni hefyd: cyfle i gamu nôl, craffu ar yr ystadegau, myfyrio ar y prif ddatblygiadau, ac asesu ble rydym ni arni. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ymgysylltu â chymunedau ac unigolion ar draws y wlad i glywed eu profiadau real nhw o gaffael yr iaith a'i defnyddio hi.

Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad manwl o feysydd polisi sy'n allweddol i ddyfodol y Gymraeg ac yn gosod argymhellion clir a phenodol ynghylch yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf.

Yn sgil cyflwyno dadansoddiad manwl o Gyfrifiad 2021 a chraffu ar ddata a datblygiadau eraill, mae'r Comisiynydd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn allweddol: 'beth yn rhagor gallwn ni ei wneud yn y pum mlynedd nesaf i gryfhau sefyllfa ein hiaith?' Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn rydym wedi adnabod deg blaenoriaeth benodol mewn tri maes strategol bwysig i ddyfodol y Gymraeg. Yn ein barn ni mae angen gweithredu yn uchelgeisiol ac yn fwriadol yn y meysydd hyn os ydym o ddifri am wireddu ein huchelgais fawr dros y Gymraeg a'i siaradwyr.

Mae 10 prif flaenoriaeth yn cael eu cyflwyno yn ein hadroddiad ac maent i raddau helaeth yn ategu galwadau ein dogfen maniffesto, ac yn adlewyrchu gwaith craffu ar bolisi'r swyddfa dros y blynyddoedd diwethaf. Dyma'r meysydd lle credwn bod cyfleoedd gwirioneddol i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf:

1. Rhaid gwella cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg drwy gryfhau sefyllfa'r iaith mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a thrwy ddarparu cyllid ychwanegol i'r Mudiad Meithrin, y mentrau iaith ac eraill yn y maes i'w galluogi i dargedu ymyriadau yn fwy effeithiol ac ar raddfa fwy.

2. Rhaid buddsoddi ar raddfa llawer ehangach i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu blynyddoedd cynnar drwy gynyddu'r hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n rhan o gyrsiau hyfforddiant a phrentisiaethau'r sector, a thrwy recriwtio a chadw staff yn well.

3. Rhaid gweithredu ar frys i adeiladu gweithlu addysg ddwyieithog drwy sicrhau bod pob athro yn derbyn hyfforddiant Cymraeg gorfodol drwy gydol eu hyfforddiant, eu cyfnod sefydlu fel athro, a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

4. Rhaid i bob dysgwr gael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg mewn addysg ôl-orfodol drwy gynyddu buddsoddiad ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

5. Rhaid cynnig llawer mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol, diwylliannol a chwaraeon, gyda chefnogaeth fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol cryfach a mwy o gyllid ac adnoddau.

6. Rhaid i bartneriaid gydweithio i ddeall heriau digidol a darlledu a datblygu strategaeth ddigidol Gymraeg genedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

7. Rhaid atal dirywiad yr iaith yn yr ardaloedd hynny lle mae hi ar ei chryfhaf ar hyn o bryd drwy gyhoeddi papur gwyn yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu prif argymhelliad y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

8. Rhaid adolygu ac ehangu safonau'r Gymraeg drwy reoliadau newydd ar gyfer Gweinidogion y Goron, adrannau anweinidogol Llywodraeth y DU, a sectorau allweddol eraill.

9. Rhaid galluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddwysáu ein gwaith mewn gweithleoedd drwy ddarparu fuddsoddiad ychwanegol i lunio ac arwain gweithrediad strategaeth gydlynol genedlaethol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob sector.

10. Rhaid trawsnewid gofal clinigol i siaradwyr Cymraeg drwy ariannu adran o swyddogion arbenigol o fewn GIG Cymru fydd yn sicrhau bod gofal yn y Gymraeg yn rhan annatod o lwybrau gofal mewn meysydd blaenoriaeth.

Rydym hefyd wedi paratoi fideo byr yn crynhoi'r prif gyfleon ynghyd â fideo addysgiadol i blant er mwyn rhannu'r prif ganfyddiadau ac ysbrydoli'r genhedlaeth iau. Cyfle ein cenhedlaeth: Sefyllfa'r Gymraeg 2021–25.

Bydd tynnu sylw Llywodraeth newydd Cymru, llunwyr polisi, a phawb sydd â diddordeb yn y Gymraeg at ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn flaenoriaeth i ni yn ystod y cyfnod nesaf.

# Cyfnewid gwybodaeth, ymchwil ac arfer da yn rhyngwladol

Mae gan gymunedau ieithyddol ar draws y byd ddiddordeb mawr yn llwyddiannau Cymru yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal â rhannu gwybodaeth ac arferion llwyddiannus â Chomisiynwyr eraill ar draws y byd yn rheolaidd drwy Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC), rydym yn derbyn ymholiadau cyson gan academyddion a sefydliadau ar draws y byd sydd am ddysgu rhagor am sefyllfa'r Gymraeg a'n hymdrechion i'w chryfhau. Cawsom y fraint o roi cyflwyniadau i gymunedau ieithyddol amrywiol o Norwy i Daiwan, a derbyniwyd gwahoddiadau caredig i rannu gwybodaeth am ein gwaith mewn dwy gynhadledd yn yr Almaen.



**In 2023, we expanded our long-running Wales study excursion programme for students by launching the inaugural Croeso i Gymru / Welcome to Wales Festival. The festival was designed to introduce local communities, academics, and students to Welsh culture, language, and landscape.**

**We were determined to make the Welsh language an integral part of the event, and the Welsh Language Commissioner's Office played a central role in achieving this, engaging with the festival team from the outset and providing guidance during the planning phase, as well as contributing directly to the festival programme with a talk demonstrating the impact of place-names standardisation on the linguistic landscape. We hope to build on this valuable collaboration in future years.**

**Universität Regensburg**

# Perthynas ag Iwerddon

Mae rhannu ein profiadau â'n cymdogion agosaf dros fôr Iwerddon wedi bod yn flaenoriaeth amlwg i ni wrth i Iwerddon weithredu eu deddfwriaeth newydd a symud at fabwysiadu safonau iaith. Braint arbennig oedd croesawu Comisiynydd y Wyddeleg newydd Gogledd Iwerddon i Gymru ym mis Mawrth er mwyn darparu cyngor a chefnogaeth ymarferol wrth iddo ddechrau ar y gwaith o sefydlu ei swyddfa a drafftio safonau iaith. Rhoesom hefyd dystiolaeth am y cydweithio gyda Chomisiynwyr Iwerddon i ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru

**This engagement between the Office of the Welsh Language Commissioner and Northern Ireland's new Office of the Irish Language Commissioner offered a valuable opportunity to explore potential collaboration between our offices and to learn from each other's experience in promoting best practice in language policy.**

**It was a memorable and inspiring visit for my team. The widespread recognition of the importance of Welsh across public life in Wales is truly encouraging.**

**We left Wales with new partnerships and a wealth of insights that will meaningfully inform and enhance our work.**

**Pól Deeds, Comisiynydd yr Wyddeleg, Gogledd Iwerddon**



# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

Yn ystod y flwyddyn, buom yn parhau i fonitro a rheoli risgiau strategol allweddol, gan gynnwys pwysau cynyddol ar adnoddau a chapasiti'r sefydliad wrth i'r galw am ein gwasanaethau a'n cyfrifoldebau rheoleiddio gynyddu, ynghyd â'r angen i sicrhau bod llwyth gwaith staff yn gynaliadwy. Parhaodd diogelwch seibr a diogelwch gwybodaeth hefyd yn flaenoriaethau pwysig. Er bod cynllunio ariannol effeithiol wedi galluogi'r sefydliad i weithredu o fewn cyllideb sefydlog eleni, mae disgwyl y bydd mwy o sefydliadau yn dod o fewn cwmpas y gyfundrefn safonau yn y dyfodol, gan greu galw ychwanegol am wasanaethau a chapasiti rheoleiddio. O ganlyniad, byddwn yn parhau i adolygu'r risgiau hyn yn rheolaidd a gweithredu mesurau lliniaru priodol er mwyn sicrhau ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol.

## Uchafbwyntiau'r perfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2026, dyrannodd Gweinidogion Cymru gyllideb ar gyfer y categorïau isod, a nodir y gwariant canlynol yn erbyn pob categori:

| | Dyraniad £000 | [1]Alldro £000 | Tanwariant £000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 3,402 | 3,383 | 19 |
| Cyfalaf | 50 | 50 | - |
| Nid yn arian parod (amorteiddio a dibrisiant) | 138 | 90 | 48 |

[1] Alldro at bwrpas monitro cyllidebol Llywodraeth, yn trin rhent les swyddfa Caerdydd fel gwariant trwy'r datganiad gwariant net cynhwysfawr (gweler cysoniad isod).

Islaw, dangosir cysoniad rhwng y dosbarthiad at ddibenion cyllidebu llywodraeth ganolog a'r dosbarthiad fel yr adroddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:

| | Dyraniad £000 | Alldro £000 |
|---|---|---|
| Cyllideb refeniw (atodol 2) | 3,402 | 3,383 |
| **Addasiad IFRS16 ar gyfer swyddfa Caerdydd** | | |
| Taliadau rhent dan brydles | (13) | (13) |
| Dibrisiant ar ased hawl i ddefnydd (nid yn arian parod) | 15 | 15 |
| Llog ar rwymedigaeth hawl i ddefnydd | 2 | 2 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad (nid yn arian parod) | 96 | 64 |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd eraill (nid yn arian parod) | 26 | 26 |
| **Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr** | 3,528 | 3,477 |

Cytunwyd ar gyllideb fewnol o £3,472,000 gan y Tîm Arwain ym mis Mawrth 2025 (gweler tudalen 52). Yn dilyn hynny, derbyniwyd cyllid ychwanegol o £57,000 yn ystod y flwyddyn yn digolledu'r sefydliad am gostau uwch y setliad cyflog a newid i gyfraddau a throthwyon cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

Nod y Comisiynydd yw gwario'r gyllideb yn briodol, a chyfeirio adnoddau i feysydd sy'n gyson â'r amcanion strategol, gan sicrhau gwerth am arian.

Yn sgil y cynnydd i'r gyllideb a thanwariant mewn rhai categorïau gwariant, addaswyd y gyllideb o fewn y flwyddyn gan gyfeirio cyllideb ychwanegol, yn bennaf i faes rhaglenni.

## Crynodeb o'r perfformiad ariannol

| | 2024-25 [1]Alldro £000 | 2025-26 [1]Alldro £000 | 2025-26 [2]Cyllideb £000 | 2025-26 Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau swyddogion | 2,678 | 2,653 | 2,680 | 27 |
| Gweinyddu | | | | |
| Llety: rhent/lesoedd | 5 | 5 | 5 | - |
| Llety: costau eraill | 89 | 86 | 90 | 4 |
| Dadfeiliadau swyddfa | 4 | 5 | 1 | (4) |
| Teithio a chynhaliaeth | 38 | 44 | 41 | (3) |
| Hyfforddiant a recriwtio | 28 | 29 | 31 | 2 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 88 | 129 | 107 | (22) |
| Technoleg gwybodaeth | 101 | 125 | 142 | 17 |
| Cyfathrebu | 16 | 18 | 15 | (3) |
| Ffi archwilwyr allanol | 20 | 21 | 20 | (1) |
| Gweinyddu arall | 3 | 4 | 7 | 3 |
| | 392 | 466 | 459 | (7) |
| Rhaglenni eraill llai incwm | 159 | 255 | 197 | (58) |
| Llog net a dalwyd | (1) | (2) | (1) | 1 |
| Gwariant Refeniw Net | 3,228 | 3,372 | 3,335 | (37) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 48 | 64 | 96 | 32 |
| Amhariad asedau anghyffyrddadwy | 33 | - | - | - |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | 17 | - | - | - |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnydd | 42 | 41 | 41 | - |
| **Gwariant net ar ôl llog a dibrisiant** | **3,368** | **3,477** | **3,472** | **(5)** |

[1]Alldro yn trin les swyddfa Caerdydd yn unol ag IFRS16 lesoedd

[2]Cyllideb fewnol derfynol a gytunwyd gan y Tîm Arwain ym mis Mawrth 2025

## Costau swyddogion

Roedd yr alldro terfynol £27,000 yn llai na'r gyllideb, er gwaethaf setliad cyflog oedd £19,000 yn uwch na'r rhagolwg, cynnydd mewn gwariant o ganlyniad i ymestyn contractau, a thalu lwfansau dros dro i staff am gyfrifoldebau ychwanegol. Roedd hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau yn cynnwys: peidio â llenwi rôl a oedd wedi'i chyllidebu, lleihad i'r croniad ar gyfer gwyliau nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn, gostyngiad i oriau gwaith, absenoldebau di-dâl, ac adennill costau ar gyfer aelod staff ar secondiad.

## Llety: rhent / lesoedd swyddfa a chostau eraill

Fel adroddwyd llynedd, mae costau rhedeg y swyddfeydd wedi sefydlogi ers cwblhau'r prosiect i gau ac adleoli'r swyddfeydd. Llwyddwyd i wneud rhai arbedion bychan i gostau treth annomestig, llogi desgiau poeth, a thrydan.

## Dadfeiliadau swyddfa

Roedd gwariant £4,000 yn fwy na'r gyllideb ar gyfer dadfeiliadau swyddfa yn sgil newid i'r gyfradd ddisgownt a gynghorir gan Drysorlys EF, nad oedd modd ei ragweld.

## Teithio a chynhaliaeth

Mae gwariant ar deithio a chynhaliaeth wedi cynyddu rhyw £6,000 o flwyddyn i flwyddyn, ac roedd yr alldro £3,000 yn fwy na'r gyllideb. Er bod cynnydd wedi'i gynllunio roedd gofynion teithio yn fwy na'r disgwyl oherwydd digwyddiadau amrywiol a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn. Ystyrir ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen hollbwysig o waith y sefydliad.

## Cyfreithiol a phroffesiynol

Roedd gwariant ar faterion cyfreithiol a phroffesiynol £22,000 yn fwy na'r gyllideb. Y prif reswm am hynny oedd yr angen am gyngor annibynnol wrth ymateb i faterion amrywiol nad oedd modd eu rhagweld. Roedd y rhain yn cynnwys costau mewn perthynas ag achos Tribiwnlys y Gymraeg, ceisiadau rhyddid gwybodaeth, materion adnoddau dynol, a chwyn yn erbyn y sefydliad. Mae mwy o fanylion am yr achosion tribiwnlys ar dudalen 62.

## Technoleg gwybodaeth

Roedd tanwariant i'w gymharu â'r gyllideb o £17,000 ar wasanaethau TG yn y flwyddyn. Y prif resymau am hynny oedd arbedion ar gostau trwyddedau, cadw data a chefnogaeth tra bod y System Rheoli Achosion yn parhau i gael ei datblygu, a gallu cwblhau achrediad IASME Cyber Assurance heb yr angen am gymorth ymgynghorwyr allanol.

## Cyfathrebu

Trwy fanteisio ar danwariant mewn meysydd gwariant eraill, bu modd gwario £3,000 yn ychwanegol, ar gyhoeddusrwydd a nwyddau marchnata.

## Gwariant rhaglenni eraill

Gosodwyd cyllideb o £197,000 ar ddechrau'r flwyddyn. Gydag arbedion ar gostau cyflogaeth yn ystod 2025-26 a dyraniad cyllid ychwanegol o £57,000 gan Lywodraeth Cymru, bu modd arallgyfeirio cyllideb ychwanegol i raglenni, gan gynyddu'r gwariant i £255,000. Y prif brosiectau i elwa o'r cynnydd oedd:

- Y Cynllun Iaith Gwaith
- Prosiectau Cymraeg yn y Gweithle
- Pecyn Addysg ysgolion cynradd ac uwchradd
- Adroddiad 5-Mlynedd

Mae rhagor o wybodaeth ar dudalennau 17 i 49 mewn perthynas â rhai o'r prosiectau mwyaf allweddol gafodd eu cyflawni.

## Dibrisiant ac Amorteiddiad

Roedd costau dibrisiant ac amorteiddio ar asedau anghyffyrddadwy ac eiddo, offer a pheiriannu £32,000 yn llai na'r gyllideb. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y System Rheoli Achosion yn parhau i gael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn, ac oedi i gomisiynu ychwanegiadau asedau eraill.

# Rhan 2: Atebolrwydd


| | |
|---|---|
| Datganiad Llywodraethiant | 56 |
| Adroddiad Cydraddoldeb | 64 |
| Adroddiad Amgylcheddol | 69 |
| Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth | 70 |
| Adroddiad Staff | 78 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 82 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 83 |

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn amlinellu gwybodaeth am y ffordd rwyf yn rheoli'r sefydliad ac yn sicrhau llywodraethiant corfforaethol da. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol i sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad. Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi datganiad llywodraethiant blynyddol sy'n egluro sut mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad Llywodraethiant

Mae'r datganiad llywodraethiant hwn yn nodi sut y caiff y ffordd o gyflawni fy nyletswyddau eu llywodraethu a'u rheoli, a sut yr wyf fi, fel y Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg yn statudol fel corfforaeth undyn o dan adran 1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Apwyntir Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru i'm cynghori, ac rwyf wedi apwyntio Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn darparu sicrwydd pellach.

Rwy'n annibynnol o Weinidogion ac yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gallu craffu ar gyfrifon ac effeithiolrwydd fy swyddfa wrth gyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i mi benodi Dirprwy Gomisiynydd. Penodwyd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio, Osian Llywelyn, fel y Dirprwy Gomisiynydd o 12 Chwefror 2024 am gyfnod o dair blynedd.

## Cynllun Strategol ac adolygu cynnydd

Eleni oedd blwyddyn gyntaf Cynllun Strategol 2025-2030.  Mae'r cynllun yn cynnwys datganiad o weledigaeth ac yn cyfeirio at dri phrif amcan, sef:

- Cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau ac yn eu defnyddio'n rheolaidd;
- Cynyddu cyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg, gan greu amgylcheddau lle gall pobl ddefnyddio'r iaith yn hwylus ac yn gyson;
- Arwain y gwaith o eiriol dros y Gymraeg gan warchod a hyrwyddo buddiannau siaradwyr.

Yn ogystal pennwyd tri thema arbennig sef: iechyd a gofal, plant a phobl ifanc a'r gweithle.  Rhoddwyd y Cynllun ar waith drwy gynllun gweithredol blynyddol ac roeddem yn adrodd ar yr hyn oedd yn cael ei gyflawni bob chwarter. Mae rhan gyntaf yr adroddiad blynyddol yn adrodd ar berfformiad y Cynllun Strategol fesul amcan.

## Fframwaith Llywodraethiant

Rwyf yn gweithredu Fframwaith Llywodraethiant sydd ar gael ar ein gwefan. Pwrpas y Fframwaith yw egluro sut rwy'n cadw fy annibyniaeth fel corfforaeth undyn a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwy'n ei dderbyn. Mae'r Fframwaith, sydd yn dilyn arfer da, yn cynnwys gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, ac yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r ffordd yr wyf yn gweithredu ac yn defnyddio fy adnoddau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ffordd y mae'r Fframwaith hwn yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn.

## Tîm Arwain

Mae'r Tîm Arwain yn cyfrannu at ddatblygu fy nodau strategol a'm cynllun gweithredol blynyddol; dyrannu adnoddau ariannol, ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol; asesu rheoli risg a chyfleoedd; ac asesu perfformiad parhaus y sefydliad.  Mae copi o'r cylch gwaith i'w weld ar ein gwefan.

Dyma restr o'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn:

| **Efa Gruffudd Jones** | **Comisiynydd y Gymraeg** |
|---|---|
| **Osian Llywelyn** | Dirprwy Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Rheoleiddio |
| **Siân Elen McRobie** | Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Lowri Williams** | Cyfarwyddwr Strategol |

Bu'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfnod mamolaeth yn ystod rhan o'r flwyddyn, a chafodd trefniadau dros dro eu rhoi ar waith.

## Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Mae gennyf Banel Cynghori statudol a sefydlwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Penodir yr aelodau gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Caf ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Caiff y cylch gwaith ei adolygu yn flynyddol, ac mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Panel Cynghori yn ystod y flwyddyn a dyma fanylion presenoldeb yr aelodau:

| | **Gorffennaf 2025** | **Tachwedd 2025** | **Chwefror 2026** |
|---|---|---|---|
| Gwyn Williams (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | × |
| Nia Elias | × | ✓ | ✓ |
| Anne Davies | ✓ | ✓ | ✓ |
| Elin Maher | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rona Aldrich | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cadarnhawyd y byddai tymor Anne Davies a Nia Elias ar y Panel Cynghori yn dod i ben ar ôl cyfarfod Chwefror 2026. Disgwylir i Weinidogion Cymru ddechrau ar y broses o benodi aelodau newydd yn fuan.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i mi fel Swyddog Cyfrifyddu ac i'r Tîm Arwain ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Caiff y cylch gwaith ei adolygu yn flynyddol, ac mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau archwilio mewnol rheolaidd, y gofrestr risg strategol ac adroddiad eithriad ar faterion llywodraethiant a chorfforaethol.  Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar yr adroddiad blynyddol, y cyfrifon statudol ac adroddiadau'r archwilwyr allanol. Caiff yr adroddiad cyllid a'r adroddiad cynnydd perfformiad chwarterol eu rhannu gyda'r aelodau, yn ogystal ag adroddiadau penodol gan fy nhîm mewn ymateb i unrhyw risgiau neu heriau penodol sydd yn codi.

Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor, a chaiff aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Dyma restr o'r aelodau a manylion eu presenoldeb yn y pedwar cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Mehefin 2025 | Medi 2025 | Rhagfyr 2025 | Mawrth 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Mair Gwynant (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Alan Davies | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jayne Woods | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Aled Walters | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cadarnhawyd y byddai tymor Mair Gwynant yn dod i ben ar ôl cyfarfod Mawrth 2026 ac y bydd tymor Alan Davies yn dod i ben ddiwedd mis Tachwedd 2026. Dechreuwyd ar yr broses o benodi dau aelod newydd o ganlyniad. Cadarnhawyd y byddai Jayne Woods yn olynu fel Cadeirydd y pwyllgor wedi cyfarfod Mawrth 2026.

### Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Mair Gwynant:

Mae gwaith y sefydliad ar faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant wedi parhau i ddatblygu yn sylweddol yn ystod 2025/26, gydag ymateb positif i ofynion y Pwyllgor o ran ymateb i risg a heriau corfforaethol.  Mae safon y gwaith yn raenus ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd cadarn ar waith y sefydliad.

Yn seiliedig ar waith y Pwyllgor dros y flwyddyn, gallwn adrodd fod yr adroddiadau a rannwyd a'r trafodaethau gyda'r Comisiynydd a'r swyddogion yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor:

- fod yna drefniadau, polisïau a phrosesau er mwyn ceisio sicrhau llywodraethiant effeithiol,
- fod yna drefniadau ariannol effeithlon;
- bod system mewn lle i reoli risg a
- bod rheolaeth fewnol yn gadarn.

Rwyf yn hyderus y bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar waith y sefydliad er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, llywodraethiant safonol ac ymateb priodol i unrhyw risgiau sy'n codi.

## Archwilwyr Mewnol

Mae cwmni TIAA yn gweithredu fel Archwilwyr Mewnol.

Caiff rhaglen archwilio mewnol ei chytuno yn flynyddol er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i mi o ran rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Yn unol â'r rhaglen ar gyfer 2025-26, archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau a oedd yn argymell gwelliannau pellach i'r system reolaeth fewnol.

| Maes | Math o archwiliad | Lefel sicrwydd | Nifer yr argymhellion |
|---|---|---|---|
| Trefniadau Llywodraethiant | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |
| Asesiad Aeddfedrwydd Diogelwch Seibr | Ymgynghorol | Amh. | 8 |
| Rheoli Contractau | Sicrwydd | Sylweddol | 2 |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Sicrwydd | Sylweddol | 2 |

Caiff pob adroddiad archwilio mewnol ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r pwyllgor yn cadw trosolwg o'r cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion yr archwilydd mewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

**Yn eu hadroddiad blynyddol, rhoddodd yr archwilwyr mewnol y farn ganlynol ar lywodraethiant y sefydliad:**

Mae TIAA yn fodlon, yn seiliedig ar y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant rhesymol ac effeithiol ar waith.

Mae'r farn hon wedi'i seilio'n llwyr ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw'n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, yr hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni ymrwymiadau ariannol sydd rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg eu cael o'i amrywiol ffynonellau sicrwydd.

## Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddaru ddwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Arwain ac aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar y wefan. Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, yn ymwneud â sefydliadau yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

## Archwilwyr Allanol

Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon yn unol â pharagraff 19, Atodlen 1 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg y sefydliad yn cael eu harwain gan y Fframwaith Rheoli Risg sy'n dilyn canllawiau'r Llywodraeth. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu risgiau gweithredol fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Yn ogystal, caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Arwain. Caiff y risgiau hyn eu hymgorffori i'r gofrestr risg strategol lle mae hynny'n berthnasol.

Caiff risgiau ar lefel strategol eu hadolygu'n ffurfiol pob chwarter gan y Tîm Arwain a phroses er mwyn adrodd yn dilyn hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yw Rheolwr Risg ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad ond cafodd y cyfrifoldebau hynny eu trosglwyddo dros dro i'r Dirprwy Gomisiynydd yn ystod absenoldeb mamolaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod 2025-26.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg; fodd bynnag, drwy'r Gofrestr Risg Strategol caiff risgiau eu hadnabod, eu rheoli a'u lleihau i lefel dderbyniol. Yn 2025–26, cynhaliwyd sesiwn adolygu'r gofrestr gan yr archwilwyr mewnol, a chafodd canfyddiadau'r sesiwn eu hystyried wrth ddiweddaru'r gofrestr.

Mae'r drafodaeth ar risg yn ystyried cyd-destun yr heriau cyfredol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu gan gynnwys cyd-destun economaidd anodd ac ansefydlog, pwysau ar adnoddau'r sefydliad, yr hinsawdd wleidyddol a'r risg cynyddol o ymosodiadau seibr.

## Twyll

Mae gweithdrefnau a pholisïau ar waith i sicrhau nad yw'r sefydliad yn goddef twyll. Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn ac ymatebodd fy nhîm a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i holiadur Archwilio Cymru ar lefelau rheolaeth mewnol yn ymwneud â thwyll fel rhan o'r archwiliad blynyddol. Ni fu achos o dwyll yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn ac rwyf yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Derbyniwyd 26 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2024-25: 11 cais). Ymatebwyd i'r ceisiadau yma o fewn y terfynau amser a nodir gan y Ddeddf.

Derbyniwyd un cais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn. Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol yn unol â'r broses, ond ni chafwyd ymateb pellach (2024-25: 0 cais).

# Sicrwydd gan reoleiddwyr allanol eraill

## Ymchwiliadau allanol

Yn ystod 2025–26, derbyniwyd dau hysbysiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch dwy gŵyn yn ymwneud â'n hymateb i ddau gais rhyddid gwybodaeth a oedd yn gymwys i'w hystyried yn ffurfiol. Nid oedd canlyniad yr ymchwiliadau ar gael erbyn diwedd y cyfnod adrodd.

Derbyniwyd dau hysbysiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am ddwy gŵyn oedd wedi'u gwneud iddynt am y Comisiynydd. Yn y ddau achos penderfynwyd peidio ag ymchwilio oherwydd diffyg gwybodaeth yn yr achos cyntaf ac oherwydd nad oedd yr achwynydd wedi cwyno i ni yn gyntaf yn yr ail achos. Yn sgil cyfarwyddyd yr Ombwdsmon, fe wnaethom ymateb i'r ail gŵyn dan ein gweithdrefn gwyno yn erbyn y sefydliad.

## Risgiau diogelwch

Mae rheoli risgiau diogelwch mewn meysydd amrywiol o ddata, gwybodaeth, ein hamgylchedd Technoleg Gwybodaeth, ein swyddfeydd, a'n staff yn hanfodol.  Mae derbyn achrediadau seibr ddiogelwch yn parhau i fod yn elfen bwysig o fframwaith risg diogelwch y sefydliad.  Derbyniwyd achrediadau Cyber Essentials a Cyber Essentials Plus unwaith eto yn ystod 2025-26.  Hefyd derbyniwyd achrediad IASME Cyber Assurance Lefel 1, sy'n adnewyddu achrediad IASME Cyber Assurance Lefel 2 am flwyddyn arall. Bydd y rhain yn cefnogi'r trefniadau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn perthynas â'r ystod eang o risgiau diogelwch yn cael eu rheoli yn briodol.

# Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennym **weithdrefn gwyno benodol** os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Derbyniwyd 12 cwyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2025-26 (2024-25: 1 cwyn). Roedd 6 o'r cwynion yn ymwneud ag adolygiadau i ymholiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebwyd yn briodol i bob cwyn.

# Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn a chomisiynwyr

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion hefyd yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol, llywodraethiant, diogelu data a thechnoleg gwybodaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod statudol o Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Adolygwyd eleni y memorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhyngom a gellir **gweld copi ar ein gwefan**.

## Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod 2025-26, cyflwynwyd 2 gais newydd gan unigolion (2024-25: 2 gais) i Dribiwnlys y Gymraeg i ailystyried penderfyniadau'r Comisiynydd. Yn ogystal, parhaodd 1 achos o'r flwyddyn flaenorol (2024–25) gyda chais gan yr apelydd am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.

Ceir crynodeb o bob achos a'r dyfarniad isod. Ni dderbyniwyd unrhyw apêl gan sefydliad yn ystod y flwyddyn.


| Rhif cyfeirnod | Crynodeb | Dyfarniad y Tribiwnlys |
|---|---|---|
| **TyG/24/02** | Cais gan yr apelydd am adolygiad o benderfyniad gan y Tribiwnlys i beidio rhoi caniatâd i gais gael ei wneud o dan adran 103 Mesur y Gymraeg. | Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd ar y sail bod y penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad i gŵyn yr ymgeisydd:<br>(a) yn seiliedig ar gamddehongliad o Safon 84; ac<br>(b) wedi methu ag ystyried ystyriaeth berthnasol wrth ddyfarnu a oedd cynnig y Cyngor o gyrsiau iaith Gymraeg yn ddigonol i gydymffurfio â Safon 84.<br>Danfonwyd y gŵyn yn ôl i'r Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ei bod yn cael ei hailystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y dyfarniad. |
| **TyG/25/01** | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. | Ni wnaeth y Tribiwnlys roi caniatâd i'r cais gael ei wneud dan adran 103 Mesur y Gymraeg. |
| **TyG/25/02** | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. | Ni wnaeth y Tribiwnlys roi caniatâd i'r cais gael ei wneud dan adran 103 Mesur y Gymraeg. |

## Effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban

Mae'n arfer da gan gyflogwyr i osod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol ac mae gennyf bolisi chwythu'r chwiban cadarn ar waith. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a rheolwr o fewn tîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, TIAA, wedi eu cynnwys yn y polisi fel y gellir codi pryderon gyda nhw. Ni fu unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

## I gloi

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod gweithdrefnau llywodraethiant addas a phriodol yn y sefydliad ac mae barn yr archwilwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi hynny. Rwy'n hyderus bod y datganiad hwn yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol a wnaeth godi yn ystod y flwyddyn.



**Efa Gruffudd Jones**
Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad Cydraddoldeb

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

2025–26 oedd yr ail flwyddyn o weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–28. Fel rhan o'r cynllun hwnnw, mae Cynllun Gweithredu penodol sy'n amlinellu'r gweithgareddau sydd i'w cyflawni dros gyfnod y Cynllun. Darperir crynodeb isod o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn erbyn y pedair amcan o fewn y cynllun.

## Amcan 1: Y Gweithlu

**Nod hirdymor:** Mae gennym weithlu dwyieithog sy'n gynrychioliadol o gymdeithas ac rydym yn gweithio i atal bylchau cyflog o bob math.

Ar 31 Mawrth 2026, roeddem yn cyflogi 38.2 o bobl (cyfwerth â llawn amser). Rydym yn gyson yn casglu a chynnal data cydraddoldeb am ein holl swyddogion yn seiliedig ar y 9 nodwedd warchodedig. Nid yw'n orfodol i swyddogion ei gwblhau, felly mae angen ystyried hynny wrth ddadansoddi data. Fodd bynnag, ar y cyfan mae staff yn barod i rannu'r wybodaeth hon a byddwn yn parhau i'w hannog i'w lenwi.

Mae dehongli data amrywiaeth yn ystyrlon yn anodd mewn sefydliad bach, lle gall nifer isel o unigolion newid canrannau ar draws y sefydliad yn sylweddol. Mae hefyd yn golygu na allwn gyhoeddi'r rhan fwyaf o'n data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r 9 nodwedd warchodedig. Er hynny, caiff y data hwn ei fonitro'n fewnol gan ein tîm Adnoddau Dynol ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Hyd yn hyn ni fu unrhyw fater sy'n peri pryder; ond byddwn yn darparu gwybodaeth pan fydd modd gwneud hynny.

Rydym yn parhau i ofyn i ymgeiswyr swyddi gwblhau holiadur cydraddoldeb fel rhan o'r broses recriwtio, ac, wrth wneud, rydym yn casglu data ar 7 o'r 9 nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ffurflen ymgeisio am swydd bellach yn cynnwys gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb er mwyn hwyluso'r broses recriwtio ac annog ymgeiswyr i gwblhau'r manylion heb fod angen cymryd camau ychwanegol i wneud hynny.

Mae'r data eleni yn dangos bod ystod y bobl sydd wedi ymgeisio am swyddi yn gymharol gyson â lefelau amrywiaeth y gweithlu sefydlog. Rydym yn edrych yn barhaus am ffyrdd i hysbysebu swyddi yn ehangach er mwyn ceisio annog gwell cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn ein gweithlu.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig gofod diogel ar gyfer cyfweliadau. Gall hyn gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig) gwahoddiad i ddefnyddio gofod o fewn ein swyddfeydd.

Mae'r broses o benodi staff a gosod eu cyflogau yn dilyn trefn gyson a theg nad yw'n ffafrio'r naill ryw dros y llall. Fodd bynnag, oherwydd maint y sefydliad gall newidiadau bychain i'r strwythur gael effaith sylweddol ar yr ystadegau.

Nid yw'n ofynnol i ni gyhoeddi ein bwlch cyflog ar sail rhywedd oherwydd ein bod yn gyflogwr rhy fach, ond rydym yn ei gyfrifo ac yn dewis ei gyflwyno'n flynyddol yn yr adroddiad blynyddol. Ar 1 Ebrill 2025 roedd y bwlch o blaid dynion ac roedd hynny yn parhau i fod y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026. Mae'r bwlch cyflog yn destun monitro cyson ac rydym yn parhau i gadw golwg ar y mathau o gytundebau, a phatrymau gweithio'r gweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl all godi.

Rydym wedi cofrestru fel cyflogwr 'Hyderus o ran anabledd – Ymroddedig' (Lefel 1) gan ymrwymo i'r isod ac rydym yn edrych i symud i'r lefelau nesaf:

- sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol a hygyrch
- hysbysebu a hyrwyddo swyddi gwag er mwyn cyrraedd pobl anabl
- cynnig cyfweliad i bobl anabl
- rhagweld a darparu addasiadau rhesymol yn ôl y gofyn
- cefnogi unrhyw aelodau staff presennol.

## Amcan 2: Y Gymuned

**Nod hirdymor:** Rydym yn ymgysylltu â phob rhan o gymdeithas ac yn cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Mae'n bwysig ein bod yn codi ymwybyddiaeth o waith y Comisiynydd ymysg ein holl randdeiliaid gan gymryd cyfleon o hyd i estyn allan, ac i sicrhau ein bod yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.


Yn ystod y cyfnod adrodd bu'r Comisiynydd yn ymweld ag amryw sefydliadau, ysgolion, busnesau a lleoliadau gwaith e.e. Carchar y Berwyn, elusen Gwobr Dug Caeredin, Ysgol Bro Teifi, Ysgol Fitzalan, a'r Adran Gwaith a Phensiynau ym Mangor, heb anghofio'r cyfleon i drafod ac ymweld â stondinau yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.

Yn ystod y digwyddiadau a'r ymweliadau hyn mae cael trafod wyneb yn wyneb, rhoi cyflwyniadau a chael clywed am brofiadau eraill yn ymwneud â'r Gymraeg yn hynod bwysig, ac yn llywio'n gwaith o ddydd i ddydd. Mae cynnal gweithgareddau ar ein stondin e.e. gydag elusen Gwobr Dug Caeredin a busnesau lleol yn ffordd o greu partneriaethau newydd, amrywiol. Eleni crëwyd fideos am enwau lleoedd gan dderbyn ymateb gwych yn lleol ac yn genedlaethol. Ym Mharc Margam hefyd, lansiwyd ein hadroddiad yn cyhoeddi canlyniadau'r ymchwil a wnaed gyda 1,600 o blant a phobl ifanc ar draws Cymru i'w defnydd o'r Gymraeg. Ymatebwyd yn y wasg a'r cyfryngau yn Gymraeg ac yn Saesneg gan gymryd cyfleon i siarad ag amrywiaeth o newyddiadurwyr a rhaglenni radio a theledu yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ogystal ag ymweliadau wyneb yn wyneb, mae manteisio ar ddulliau eraill o gyfathrebu yn hynod bwysig hefyd er mwyn sicrhau bod ein gwaith mor hygyrch ag sy'n bosib. Rydym yn defnyddio podlediadau, blogiau ar y wefan, dylanwadwyr, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau, pecynnau gwybodaeth, ac ymgyrchoedd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd eang o gefndiroedd gwahanol ar draws Cymru a thu hwnt. Yn yr un modd yn yr Eisteddfod Genedlaethol gwelwyd amserlen lawn o weithgareddau ar ein stondin gydag amrywiaeth o bartneriaid, a lansiwyd ein gweledigaeth mewn digwyddiad ar y maes yn dilyn cyhoeddi ein cynllun strategol a'n maniffesto.

Wrth i ni lansio Cynllun Strategol newydd cyhoeddwyd fideo newydd gydag amrywiaeth o'n partneriaid ac unigolion sydd ynghlwm â'n blaenoriaethau strategol, er mwyn cyflwyno ein hamcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc o ysgolion amrywiol, criw o ieuenctid o Bafiliwn y Grange yn Grangetown, perchnogion busnesau, rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd, ac mewn sefydliadau cyhoeddus.

Ffordd bwysig o sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd yw ein hymgyrchoedd cenedlaethol. Yn ystod mis Mai 2025 cynhaliwyd wythnos o ymgyrch y Cynnig Cymraeg lle cawsom gyfle i roi ffocws arbennig ar y Cynnig Cymraeg a'i bwysigrwydd o ran hybu'r Gymraeg ymysg y sector preifat a'r trydydd sector. Bu'r ymgyrch honno yn canolbwyntio ar daith sefydliadau tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg a hithau yn 5 mlynedd ers ei sefydlu. Cafwyd blogiau difyr gan gwmnïau fel cyfreithwyr JCP, Ymchwil Canser Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru, Cymdeithas Strôc, y Pethau Bychain a mwy. Rhannwyd llawer o gynnwys gan bron i 80 o sefydliadau, gan gynnwys Undeb Rygbi Cymru, yn dangos sut y maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg ac yn cynnig gwell gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.




Mae ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' hefyd yn tynnu sylw at y defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a mudiadau o bob math. Roedd lansiad arbennig i'r ymgyrch ym Mhrifysgol Wrecsam a rhannwyd arferion da ac astudiaethau achos gan sefydliadau fel Prifysgol Wrecsam, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cydweithiwyd gydag amrywiaeth o ddylanwadwyr fel Lloyd Lewis, Chris Roberts a Katie Owen, sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac yn eu bywyd bob dydd er mwyn cyrraedd ystod ehangach o'u cynulleidfaoedd gan hyrwyddo amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cydweithiwyd hefyd gyda Bardd Plant Cymru, Siôn Tomos Owen, er mwyn estyn allan at ysgolion ar draws Cymru i greu cerdd arbennig am ddefnyddio'r Gymraeg, a bu 13 o ysgolion yn rhan o'r prosiect.

Eleni, gan fod bathodyn Iaith Gwaith yn dathlu 20 mlynedd, fe wnaethom ni hefyd gymryd y cyfle i rannu llwyddiant y logo wrth annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg siaradwyr a dysgwyr. Lansiwyd fersiwn newydd o logo Iaith Gwaith er mwyn dathlu mis Pride a hyrwyddo amrywedd a chynhwysiant yn ein gwaith.

Rydym yn parhau i ddosbarthu cylchlythyr i'n holl randdeiliaid ac yn sicrhau bod cynrychiolaeth o'r grwpiau gwarchodedig ac amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn ei dderbyn yn uniongyrchol, drwy'r wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r cylchlythyron i gyd **ar gael ar ein gwefan**.

Eleni hefyd cawsom gyfle i gyfrannu a chefnogi Hawdd ei Ddeall Cymru wrth iddynt fynd ati i ddiwygio eu canllawiau ar **sut i gynhyrchu gwybodaeth hawdd ei ddeall ar gyfer siaradwyr Cymraeg ag anabledd dysgu**. Mae sicrhau bod pawb yn gallu gafael ar yr wybodaeth maen nhw ei hangen yn Gymraeg wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Rydym yn credu'n gryf fod angen i'r iaith mewn pob dogfen Gymraeg fod yn hawdd ei deall, beth bynnag fo'r pwnc dan sylw a phwy bynnag yw'r gynulleidfa darged. Wrth lunio cyhoeddiadau i bobl ag anableddau dysgu, mae defnyddio Cymraeg clir, cryno a chywir hyd yn oed yn fwy pwysig wrth gwrs. Rydym yn falch o fod wedi gallu cyfrannu at greu'r canllawiau hollbwysig hyn fydd yn cefnogi awduron a chyfieithwyr i lunio dogfennau hawdd eu deall yn Gymraeg.

## Amcan 3: Ffordd o weithio

**Nod hirdymor:** Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n ffordd ni o weithio.

Sefydlwyd grŵp llywio mewnol i arwain ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ôl yn 2024-25 ac maent yn parhau i gwrdd yn chwarterol gyda chynrychiolaeth ar draws y sefydliad. Caiff rhaglen waith ei chytuno yn flynyddol sy'n berthnasol i'r pedwar amcan o fewn y cynllun.

Cafodd y templed ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ei adolygu a'i symleiddio yn 2024-25 ac roedd eleni yn gyfle i roi'r templedi newydd hynny ar waith a'u gwreiddio i'r ffordd rydym yn gweithio. Caiff asesiadau effaith ar gydraddoldeb eu cynnal er mwyn ein helpu fel sefydliad i sicrhau bod ein polisïau, ein harferion, digwyddiadau a'n prosesau gwneud penderfyniadau yn deg ac nad ydynt yn creu rhwystrau nac yn rhoi grwpiau gwarchodedig o dan anfantais rhag cymryd rhan ynddynt. Maent yn ein helpu fel sefydliad i sicrhau ein bod yn:

- deall effeithiau posibl unrhyw benderfyniad polisi drwy asesu'r effeithiau ar wahanol grwpiau yn fewnol ac yn allanol;
- nodi unrhyw effeithiau andwyol a chamau gweithredu er mwyn eu dileu neu eu lliniaru;
- gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gyda rhesymeg clir.

Rydym yn sicrhau bod cynrychiolwyr o'r sefydliad yn mynychu gwahanol gyfarfodydd a chynadleddau yn ymwneud â materion cydraddoldeb er mwyn annog gwell cynhwysiant a dealltwriaeth ymysg staff ac er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gweithio tuag at yr un nod. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant pellach i swyddogion yn barhaus ac eleni bu cyfle i swyddogion dderbyn hyfforddiant neu fynychu sesiynau yn ymwneud â'r materion canlynol:

- iechyd meddwl
- ymwybyddiaeth awtistiaeth, ADHD ac anabledd yn fwy cyffredin
- cynlluniau gweithredu lles
- cefnogi niwroamrywiaeth yn y gweithle ac addasiadau gweithle rhesymol i bobl niwrowahanol
- gwrth-hiliaeth.

Mae 3 swyddog wedi eu cymhwyso fel ymarferwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl yn y gweithle a darparwyd hyfforddiant i'w hail achredu yn ystod y flwyddyn. Gall staff droi at y swyddogion hyn os oes unrhyw beth yn eu poeni am gymorth pellach mewn modd cyfrinachol a chefnogol. Rydym hefyd yn rhoi mynediad at gymorth ychwanegol lle bo angen drwy ddarparwyr allanol.

Mae gofynion cydraddoldeb hefyd yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n proses gaffael a chomisiynu. Fel sefydliad, rydym yn ymrwymo i'r egwyddorion sydd wedi'u gosod yn neddfwriaeth caffael y DU a deddfwriaeth Cymru. Yn ychwanegol, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ynghyd â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod gofynion ar awdurdodau contractio mewn perthynas â chydraddoldeb.

Diwygiwyd polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn ystod y flwyddyn er mwyn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol caffael newydd. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau'n glir ac yn rhoi arweiniad i staff ar sut i ystyried ac asesu gofynion cydraddoldeb mewn perthynas â phroses caffael.  Ymhellach mae'r polisi a gweithdrefnau yn rhoi cyfarwyddiadau ar ymgorffori'r gofynion mewn manylebau a sut i werthuso cyflawniad yn erbyn y gofynion, adeg perfformiad y contract.

Mae holl staff y Comisiynydd wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y ddeddfwriaeth caffael newydd, a'n polisi a'n gweithdrefnau mewnol.  Mae cefnogaeth o fewn y sefydliad i reolwyr contract wrth iddynt ymgymryd i ddilyn proses caffael, ac mae gan y sefydliad gynrychiolaeth ar rwydwaith caffael sy'n hwyluso cydweithio rhwng cyrff sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

## Amcan 4: Anghenion unigol

**Nod hirdymor:** Mae ein holl weithgareddau yn hygyrch ac ar gael i bawb.

Rydym yn gweithio ar y wefan yn gyson i sicrhau ei bod yn cyrraedd cymaint o'n cynulleidfaoedd ag sy'n bosib gyda'r cynnwys mwyaf perthnasol. Rydym yn sicrhau bod awdit hygyrchedd yn cael ei gwblhau yn flynyddol, a bod adroddiadau manwl yn cael eu llunio, argymhellion am wella hygyrchedd yn cael eu gweithredu a datganiad hygyrchedd wedi ei ddiweddaru ar y wefan. Mae hynny wedi digwydd eleni ac rydym yn falch o'r datblygiad sydd wedi bod a'r gwelliant parhaus i hygyrchedd y wefan dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn y broses o lunio prosiect a fydd yn derbyn adborth defnyddwyr am y wefan gyda'r bwriad o ymateb i argymhellion a sylwadau ein cynulleidfaoedd.

Mae tudalennau newydd sbon ar y wefan erbyn hyn ar gyfer y **Cynnig Cymraeg**, **ffurflen gwyno newydd** hygyrch a soffistigedig, a **thudalen newydd ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg gan sefydliadau**, a **Phorth Adnoddau** lle bydd adnoddau defnyddiol yn cael eu gosod. Mae modd chwilio mewn ffordd fwy soffistigedig ar y wefan bellach hefyd gan ddod o hyd i ddogfennau penodol yn fwy hwylus.

Mae sicrhau platfformau amrywiol i rannu ein gwaith yn bwysig er mwyn cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae strategaeth gyfathrebu a chynlluniau cyfathrebu ar gyfer prosiectau unigol yn ein galluogi i dargedu cynulleidfaoedd yn y ffyrdd mwyaf effeithiol gan werthuso ac addasu'r dulliau hynny pan fo angen. Un ffordd effeithiol o rannu ein gwaith yw'r Cylchlythyr allanol sy'n crynhoi ein gwaith ac a gaiff ei rannu ymysg ein holl gysylltiadau. Mae cysylltu yn rhagweithiol â'r wasg yn lleol ac yn genedlaethol hefyd yn digwydd yn gyson. Mae datganiadau i'r wasg, blogiau, podlediadau, fideos byr, cyflwyniadau, erthyglau hirach, digwyddiadau, ac ymweliadau i gyd yn ffyrdd yr ydym yn sicrhau bod ein gweithgareddau yn hygyrch ac ar gael i bawb. Pan fo hynny'n addas rydym yn cysylltu gyda'r papurau bro am gynlluniau sy'n lleol ac o ddiddordeb penodol iddyn nhw e.e. os oes busnes neu elusen leol wedi derbyn y Cynnig Cymraeg, neu os yw'r Comisiynydd yn mynd ar ymweliad â'r ardal honno. Mae sicrhau ffotograffiaeth safonol a chydweithio mewn partneriaeth ar gyfryngau cymdeithasol hefyd yn sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn tyfu, a'r cynnwys ar gael i fwy o bobl.

Mae derbyn hyfforddiant ar greu dogfennau hygyrch wedi ein galluogi i sicrhau bod mwy o bobl yn eu darllen ac yn medru cael gafael arnynt. Rydym hefyd wedi addasu dogfennau penodol ar y wefan i fod yn ddogfennau 'hawdd eu darllen' sydd yn ffordd syml ac uniongyrchol o rannu gwybodaeth ag eraill.

# Adroddiad Amgylcheddol

Mae'r sefydliad yn gweithredu **Polisi Cynaliadwyedd** sy'n cwmpasu'r cyfnod 2024–27. Fel rhan o'r polisi, mae Cynllun Gweithredu sy'n manylu ar y camau gweithredu angenrheidiol y byddwn yn eu cymryd fel sefydliad dros y cyfnod 2024-27. Mae grŵp mewnol yn llywio'r gwaith ac yn cytuno ar gyfrifoldebau a thasgau penodol yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac mae cynrychiolaeth ar draws y sefydliad yn bresennol.

Mae'r camau penodol a gymerwyd yn ystod 2025-26 yn cynnwys:

- Cyflwyno eitem amgylcheddol chwarterol yn y cylchlythyr staff, yn cynnwys erthyglau ar bynciau megis lleihau gwastraff, ailgylchu, a chyngor amgylcheddol ar gyfer digwyddiadau tymhorol megis y Nadolig.
- Cynnig talu am docyn trên blynyddol ar gyfer staff.
- Cyflwyno opsiwn gwyrdd wrth archebu ceir llog.
- Ymchwilio i'r broses o sicrhau achrediad amgylcheddol.
- Llunio a chyhoeddi **Adroddiad Bioamrywiaeth**, sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i gydymffurfio â'n dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru

Ar ben y camau penodol hyn, mae nifer o'r arferion a adroddwyd arnynt yn flaenorol hefyd wedi parhau yn y sefydliad yn cynnwys:

## Trefniant gweithio hybrid / gweithwyr cartref

Mae nifer o staff yn weithwyr cartref gan ein bod wedi lleihau nifer y swyddfeydd dros amser. Mae'r trefniant gweithio hybrid yn cynnwys arfer o gael 'diwrnod angori' ar gyfer staff sy'n byw o fewn pellter rhesymol o'r swyddfa, gan alluogi staff i fod yn y swyddfa ar yr un diwrnod er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau tra hefyd yn cefnogi lles staff. Mae hyblygrwydd yn parhau ar gyfer gweddill yr wythnos, sy'n golygu bod lefel y cymudo i'r swyddfa, a'r ôl troed carbon o ganlyniad, yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

## Cynnal cyfarfodydd rhithiol lle'n bosib

Mae cyfarfodydd rhithiol yn cael eu ffafrio pan fo hynny'n briodol, gan leihau teithio busnes ac felly helpu i gadw ôl troed carbon y sefydliad yn isel.

## Gweithio mewn ffordd di-bapur

Anogir staff i beidio ag argraffu oni bai bod angen. Mae argraffwyr wedi eu gosod gyda gofynion diofyn yn cynnig yr opsiwn mwyaf effeithlon, fel rhan o'r ymdrech i leihau defnydd papur, ac mae'r defnydd o'r argraffwyr yn cael ei fonitro'n barhaus.

## Ailgylchu yn y gweithle

Mae trefniadau ailgylchu yn y gweithle yn darparu biniau ar wahân ar gyfer gwahanol fathau o wastraff, ynghyd ag arwyddion i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog lleihau gwastraff yn unol â'r gofynion cenedlaethol.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Cytundebau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.  Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored.  Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel a nodir yng nghynllun digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

## Polisi taliadau cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Mae gan y Comisiynydd bolisi i gydnabod staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol tu hwnt i'w rôl arferol ar sail dros dro. Mae'r polisi hwn yn glynu'n agos at drefniant tebyg a weithredir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynllun datblygu perfformiad yn weithredol ar gyfer ein holl swyddogion. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gellir hepgor y cynnydd yn rhychwant y tâl pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel a hyd gwasanaeth.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar raddfeydd tebyg i aelodau'r Panel Cynghori.

## Taliadau cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

| | Cyflog (£000) | | [1] Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm £000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2025-26** | **2024-25** | **2025-26** | **2024-25** | **2025-26** | **2024-25** |
| Efa Gruffudd Jones | 95-100 | 95-100 | 37,000 | 37,000 | 130-135 | 130-135 |
| Osian Llywelyn[2] | 80-85 | 80-85 | 32,000 | 32,000 | 115-120 | 110-115 |
| Lowri Williams[3] | 65-70 | 35-40 | 35,000 | 39,000 | 100-105 | 70-75 |
| Siân Elen McRobie[4] | 50-55 | 65-70 | 24,000 | 26,000 | 70-75 | 90-95 |



[1] Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan Capita, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddir. Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

[2] Derbyniodd y cyfarwyddwr lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; a lwfans cyfrifoldeb o 5% o'r cyflog ar gyfer y cyfnod hyd 31/03/2026.

[3] Ar gyfnod absenoldeb mamolaeth rhwng 11/03/2024 a 03/03/2025.  Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2024-25 rhwng £60,000 a £65,000.

[4] Ar gyfnod mamolaeth rhwng 21/03/2025 a 02/01/2026.  Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2025-26 rhwng £70,000 a £75,000.

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo’n briodol. Mae’r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Brif Weinidog Cymru yn unol ag Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1) Mesur y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau uwch-swyddogion (SSRB), corff sy’n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a’r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

## Tâl yn seiliedig ar berfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2025-26 i uwch swyddogion (2024-25: £0).

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EF yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2025-26 i uwch swyddogion (2024-25: £0).

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 (2024-25: £0).

## Ymgynghorwyr

Gwnaethpwyd taliadau o £82,000 i ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn (2024-25: £54,000).

## Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd, ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl gweithlu'r sefydliad. Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.

| | Newid % | **31 Mawrth 2026** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|
| Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl[1] | 0.0 | **95-100** | 95-100 |
| Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl) | | **84,016** | 77,495 |
| Rhychwant tâl isaf | | **34,997** | 33,748 |
| Tâl cymedrig[2] | | **49,836** | 47,426 |
| Tâl cymedrig (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl)[2] | 5.4 | **48,678** | 46,175 |
| Pwynt tâl 25ain canraddol | | **45,379** | 43,758 |
| Pwynt tâl 50ain canraddol | | **45,379** | 43,758 |
| Pwynt tâl 75ain canraddol | | **52,558** | 50,682 |
| Cymhareb pwynt tâl 25ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **2.15** | 2.23 |
| Cymhareb pwynt tâl 50ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **2.15** | 2.23 |
| Cymhareb pwynt tâl 75ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **1.86** | 1.92 |



[1] Nid oes newid wedi bod i fand cyflog y swyddog uchaf ei dâl, sef y Comisiynydd.

[2] Mae'r cynnydd o 5.4% yn y tâl cymedrig oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog.

[3] Bu lleihad i'r gymhareb ar gyfer pwyntiau tâl 25ain, 50ain, a 75ain canolraddol oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog, pan nad oedd newid i gyflog y swyddog uchaf ei dâl.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil





| Enw | Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/26 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod 31/03/26 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod 31/03/25 | Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Efa Gruffudd Jones | 5 – 10 | 0.0 – 2.5 | 111 | 76 | 26 |
| Osian Llywelyn | 15 – 20 | 0.0 – 2.5 | 193 | 166 | 16 |
| Lowri Williams | 25 – 30 | 0.0 – 2.5 | 467 | 416 | 25 |
| Siân Elen McRobie | 10 – 15 | 0.0 – 2.5 | 158 | 138 | 10 |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu i adrannau gwahanol - mae **classic**, **premium**, a **classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyflog cyfartalog gyrfa gyfan. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gyfan. Ymunodd yr holl weision sifil a oedd newydd eu penodi, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd hwn.

Mae cynlluniau'r PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau'r cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar eu cyflog). Diwellir balans cost buddion a delir gan arian a bleidleisir arno gan Senedd y DU bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy yn unol â'r ddeddfwriaeth cynyddu pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig â chyfraniad cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn **partnership**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion PCSPS bob aelod a newidiodd i **alpha** o'r PCSPS eu 'bancio', a'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn derbyn y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn arferol neu hŷn. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium**, a **classic plus**; 65 ar gyfer aelodau **nuvos**; a'r uchaf o 65 neu oed pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a adeiladwyd yn PCSPS neu **alpha** fel y bo'n briodol. Pan fo gan aelod fuddiannau yn PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond yn nodi y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoed. Parhaodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiad 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i unioni pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Arweiniodd rhan gyntaf yr unioni at gau PCSPS ar 31 Mawrth 2022, â'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae ail ran yr unioni yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod unioni, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod a'r ffigwr cyfanswm tâl unigol a adroddir ar gyfer unrhyw unigolyn y mae unioni Pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn effeithio arnynt wedi'u cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae unioni pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oeddynt yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifo yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod yr aelodau yr effeithir arnynt wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn weithredol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ymddeoliad i benderfynu yn hytrach i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun **alpha** ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os byddant yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad ar sail salwch).

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.org.uk](www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Ystyr gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac **alpha** yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb eu hariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei gyfran o'r asedau na'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd Actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2024. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet (cyhoeddiad Saesneg yn unig):

Civil Superannuation Annual Report and Accounts 2024-25

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 80 ac yn nodyn 1.9 i'r cyfrifon.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £542,000 (2024-25: £533,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar raddfa gyfunol o 28.97% o gyflog pensiynadwy (2024-25: 28.97%). Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2024-25 a byddant yn parhau heb eu newid hyd 2027-28. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Nid oes unrhyw swyddog sy'n gyflogedig gan Gomisiynydd y Gymraeg yn aelod o'r cynllun pensiwn **partnership**.

Nid oes unrhyw berson wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad Staff

## Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cymedrig staff Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2026 oedd 44.3 mlwydd oed (31 Mawrth 2025: 43.8 mlwydd oed).

Crynhoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r staff ar 31 Mawrth 2026 yn y tabl isod:

| | | **31 Mawrth 2026** | | 31 Mawrth 2025 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwryw** | **Menyw** | Gwryw | Menyw |
| Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr | cywerth â llawn amser | **1.0** | **3.0** | 1.0 | 3.0 |
| | % | **25.0** | **75.0** | 25.0 | 75.0 |
| Swyddogion eraill | cywerth â llawn amser | **11.0** | **23.2** | 11.0 | 22.6 |
| | % | **32.2** | **67.8** | 32.8 | 67.2 |
| Cyfanswm | cywerth â llawn amser | **12.0** | **26.2** | 12.0 | 25.6 |
| | % | **31.5** | **68.5** | 32.0 | 68.0 |

## Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynhoir bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2026 yn y tabl isod:

| | **31 Mawrth 2026** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw | **6.7%** | 6.1% |
| Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw | **0.0%** | 0.0% |

Nid oes bwlch tâl canolrifol ar sail rhyw. Mae cynnydd wedi bod i'r bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw yn sgil y setliad cyflog yn y flwyddyn. Mae hyn oherwydd bod cyfran y swyddogion gwrywaidd yn isel ar draws y sefydliad. Hefyd, gan fod cyfran menyw/gwryw yn 60:40 ar y graddfeydd uwch ac yn 75:25 ar y graddfeydd is, mae'r setliad cyflog wedi achosi cynnydd i'r bwlch ar ddiwedd 31 Mawrth 2026.

## Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2026 oedd 386 (2024-25: 195). Mae'r ffigwr yma yn cynnwys cymysgedd o absenoldeb tymor byr a hirdymor (diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm). Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd absenoldeb hirdymor nifer isel o staff.

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 10.1 (2024-25: 5.0) a hynny wedi ei seilio ar 38.2 aelod o staff cywerth â llawn amser (2024-25: 39.2).

## Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2025-26 yn 0.0% (2024-25:10.2%).

## Lles

Mae lles swyddogion yn hollbwysig i'r Comisiynydd, ac yn ystod y flwyddyn ehangwyd y gwasanaethau i hybu iechyd a lles ymysg staff. Rydym wedi cynnig y brechlyn ffliw i bob swyddog yn rhad ac am ddim a thanysgrifio i wasanaeth cymorth i gyflogeion trwy VivUp, dan gytundeb fframwaith Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi darparu adnoddau i gefnogi lles ariannol ein staff a chynnal amryw o sesiynau i hybu iechyd a lles da ymysg swyddogion. Yn ogystal, cynigir buddion i staff fel cynlluniau talebau gofal plant, a chynllun beicio i'r gwaith sy'n ysgogi ymarfer corff a lleihau allyriadau carbon wrth deithio i'r swyddfeydd.

## Arolwg staff

Cynhaliwyd arolwg staff blynyddol y Comisiynydd yn Chwefror 2026, gyda 63% o'r gweithlu yn ymateb.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol. Ystyrir ymrwymiad staff i'r broses yn bwysig, a threfnir ystod o sesiynau trafod i wrando ar sylwadau a chasglu syniadau.

## Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn datblygu perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth eu gwaith ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff a chyflwynwyd rhaglen o ddatblygiad personol ar draws y sefydliad yn y flwyddyn a fu er mwyn nodi unrhyw anghenion penodol ac i ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Trefnwyd cyrsiau drwy ddarparwyr amrywiol gan gynnwys Acuity Training, Data Cymru, React 2 Training, RCS Cymru, a'r CIPR.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu, a chynigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

## Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen gydnabyddedig o undeb y PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Adnoddau Dynol.

## Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn cael ei ystyried yn faterol berthnasol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

# Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

| | Staff parhaol £000 | Staff ar gytundeb cyfnod penodol £000 | **Cyfanswm 2025-26 £000** | Cyfanswm 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau swyddogion** | | | | |
| Cyflog | 1,836 | 28 | **1,864** | 1,844 |
| Taliadau ymadael | - | - | **-** | 94 |
| Nawdd cymdeithasol | 236 | 4 | **240** | 192 |
| Pensiwn | 531 | 8 | **539** | 537 |
| | 2,603 | 40 | **2,643** | 2,667 |
| Ffioedd aelodau pwyllgorau | | | **10** | 11 |
| Cyfanswm | | | **2,653** | 2,678 |

| | **2025-26** | 2024-25 |
|---|---|---|
| **Niferoedd swyddogion** | | |
| Comisiynydd y Gymraeg | **1.0** | 1.0 |
| Staff parhaol | **36.5** | 37.9 |
| Swyddogion ar gytundeb cyfnod penodol | **0.7** | 0.3 |
| Nifer cyfartalog[1] | **38.2** | 39.2 |
| Aelodau o bwyllgorau[2] | **9.00** | 8.75 |

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd ac uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 71 a 74 i 77.

[1] Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd ar gyfartaeldd yn ystod y flwyddyn.

[2] Mae'r aelodau yn cynnwys 5.00 aelod o'r Panel Cynghori (2024-25: 5.00) a 4.00 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2024-25: 3.75) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

## Taliadau ymadael

Yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2026, ni thalwyd unrhyw gostau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dâl 1972. Talwyd costau ymadael o £94,000 yn 2024-25, ac mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt at bwrpas cymharol.

| | Nifer diswyddiadau gorfodol 2025-26 | Nifer diswyddiadau eraill 2025-26 | **Nifer diswyddiadau fesul band cost 2025-26** | Nifer diswyddiadau fesul band cost 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| £10,000 – £25,000 | - | - | **-** | 2 |
| £25,000 – £50,000 | - | - | **-** | 2 |
| Cyfanswm pecynnau ymadael | - | - | **-** | 4 |

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu


Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran bob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y cyfarwyddiadau cyfrifon a roddir, gyda chydsyniad Trysorlys EF, gan Weinidogion Cymru. Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r incwm a gwariant, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig:

- cadw at gyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisïau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon;
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, *Managing Public Money*, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd bob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Swyddog Cyfrifyddu
19 Awst 2026

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian, Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2026 ac o'i wariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, yr archwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Comisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd y Gymraeg;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Tîm Arwain a'r Panel Cynghori;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion siwrnalau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes;

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd y Gymraeg a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n gorfod ateb gofynion o ran cael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
19 Awst 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Comisiynydd y Gymraeg a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

# Rhan 3: Datganiadau Ariannol


| | |
|---|---|
| Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | 89 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 90 |
| Datganiad Llifoedd Arian | 91 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 92 |
| Nodiadau'r cyfrifon | 93 |

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | **2025-26** | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau Swyddogion | 3 | **2,653** | | 2,678 | |
| Gweinyddu | 4 | **466** | | 409 | |
| Gwariant rhaglenni eraill | 5 | **255** | | 181 | |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **31** | | 23 | |
| Amhariad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **-** | | 33 | |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **41** | | 42 | |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **33** | | 25 | |
| | | | **3,479** | | 3,391 |
| **Incwm** | 5 | | **-** | | (22) |
| Gwariant net | | | **3,479** | | 3,369 |
| Costau llog ar rwymedigaethau lesoedd | 12 | | **3** | | 4 |
| Llog (derbyniadwy)/taladwy net arall | | | **(5)** | | (5) |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | | **3,477** | | 3,368 |

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 107 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

| | | 31 Mawrth 2026 | | 31 Mawrth 2025 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 6 | **258** | | 268 | |
| Asedau hawl i ddefnydd | 7 | **96** | | 137 | |
| Eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **96** | | 101 | |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **450** | | 506 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | **59** | | 54 | |
| Arian parod ac arian cywerth | 10 | **132** | | 135 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **191** | | 189 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **641** | | 695 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | **(320)** | | (310) | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(39)** | | (40) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(359)** | | (350) |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **282** | | 345 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(48)** | | (85) | |
| Darpariaethau | 13 | **(105)** | | (114) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(153)** | | (199) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **129** | | 146 |
| Cronfa gyffredinol | | | **129** | | 146 |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | **129** | | 146 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 107 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 89 i 92 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Swyddog Cyfrifyddu
19 Awst 2026

# Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026





| | Nodiadau | **2025-26** | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | **(3,479)** | (3,369) |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **31** | 23 |
| Amhariad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **-** | 33 |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **41** | 42 |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **33** | 25 |
| Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol | | **-** | 17 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill | 9 | **(5)** | (7) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn taliadau masnach a thaliadau eraill | 11 | **10** | (87) |
| (Lleihad/Cynnydd mewn darpariaethau | 13 | **(9)** | 14 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(3,378)** | (3,309) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 6 | **(21)** | (33) |
| Taliad i gaffael asedau hawl i ddefnydd | 7 | **-** | - |
| Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **(29)** | (23) |
| Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau | | **1** | 1 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(49)** | (55) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: cyfalaf | 12 | **(38)** | (36) |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: llog | 12 | **(3)** | (4) |
| Llog a dderbyniwyd/(dalwyd) | | **5** | 5 |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | **3,460** | 3,359 |
| **Cyllido net** | | **3,424** | 3,324 |
| **(Lleihad)/Cynnydd net mewn arian parod ac arian cywerth yn y cyfnod** | | **(3)** | (40) |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **135** | 175 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **132** | 135 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 107 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026

| | Nodiadau | £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2024 | | 155 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2024-25** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,368) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2024-25** | | (3,368) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,359 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **146** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2025-26** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,477) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2025-26** | | (3,477) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,460 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **129** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 107 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual* (FReM) 2025-26 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Bydd IFRS 18 yn disodli *IAS 1 Presentation of Financial Statements* ac mae'n effeithiol yn y sector breifat ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027. Mae effaith IFRS 18 ar y Sector Cyhoeddus yn dal i gael ei asesu, ac nid oes penderfyniad ar ddyddiad gweithredu wedi'i wneud hyd yma.

## Sail busnes gweithredol

Nid oes unrhyw fwriad i derfynu'r gwasanaeth a ddarperir gan Comisiynydd y Gymraeg fel y dangosir gan y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a diffyg deddfwriaeth sy'n angenrheidiol i ddirwyn Comisiynydd y Gymraeg i ben. Mae Datganiad Sefyllfa Ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar 31/03/2026 yn dangos asedau net o £129,000 (31/03/2025: asedau net o £146,000). Pe byddai sefyllfa o rwymedigaethau net, byddai hyn yn adlewyrchu rhwymedigaethau oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno. I'r graddau na allai'r Comisiynydd y Gymraeg eu talu o'i ffynonellau incwm eraill, byddent yn disgyn, yn y pen draw, i'w talu gan Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â'r confensiynau arferol sy'n berthnasol i reolaeth dros incwm a gwariant, a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ni chaiff Cymorth Grant ei dalu cyn bod ei angen, ond nid oes unrhyw reswm i gredu, na fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r Cymorth Grant ac unrhyw gyllideb adnoddau gysylltiedig ychwanegol. Yn unol â hynny, ystyrir ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

## 1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

### (1.1) Confensiynau cyfrifyddu

Lluniwyd y cyfrifon hyn ar sail groniadol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

### (1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### (1.3) Incwm

Cydnabyddir incwm yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Caiff incwm sydd wedi'i anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi'i ddarparu ei drin fel incwm gohiriedig.

### (1.4) Treth ar Werth

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Cydnabyddir Treth ar Werth anadferadwy yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr neu ei gynnwys fel cost ased sefydlog, lle bo'n berthnasol.

### (1.5) Asedau anghyffyrddadwy

Caiff asedau anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Caiff asedau sefydlog anghyffyrddadwy eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

### (1.6) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar werth teg. Defnyddir eu cost hanesyddol wedi'i ddibrisio, gan gynnwys costau fel gwaith gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r asedau i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig fel dull cyfatebol i werth teg gan fod gan yr asedau naill ai fywydau defnyddiol byr, gwerth isel, neu'r ddau. Caiff eiddo, offer a pheiriannau eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 24 a 90 mis.

### (1.7) Arian yn y banc ac arian parod

Caiff cyllid a dynnir lawr gan Lywodraeth Cymru ei gadw mewn cyfrif banc masnachol pan gaiff ei dderbyn. Roedd balansau arian y Comisiynydd wedi'u cadw mewn cyfrifon banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EF. Nid yw'r Comisiynydd yn dal balansau arian mân.

### (1.8) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

## (1.9) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

## (1.10) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

## (1.11) Asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

Cydnabyddir prydlesi gweithredu fel ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth les ar y fantolen. Mesurir yr ased hawl i ddefnydd ar gost sy'n cyfateb i fesuriad cychwynnol rhwymedigaeth y brydles. Mae asedau hawl i ddefnydd yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharaf.

Ar y dyddiad cychwyn mesurir rhwymedigaeth y les fel gwerth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio ar y gyfradd llog a gyhoeddir gan Drysorlys EF mewn perthynas â phrydlesi dan IFRS16.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir a'i chynyddu ar gyfer llog. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei ail fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, ac adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd.

## (1.12) Prydlesi gweithredol

Caiff rhentolion prydlesi gweithredol ar gyfer prydlesi gwerth isel neu sydd â bywyd disgwyladwy o lai na 12 mis eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

## 2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg.  Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.  Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

## 3 Costau Swyddogion

| | **2025-26** | 2024-25 |
| --- | --- | --- |
| | **£000** | £000 |
| Swyddogion cyflogedig | **2,643** | 2,667 |
| Ffioedd aelodau o bwyllgorau | **10** | 11 |
| | **2,653** | 2,678 |

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalen 80.

## 4 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

| | **2025-26** | 2024-25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Llety – Costau rhent prydlesi swyddfeydd | **5** | 5 |
| Llety - Costau eraill | **86** | 89 |
| Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd | **5** | 4 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **44** | 38 |
| Hyfforddiant a recriwtio | **29** | 28 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **129** | 88 |
| Technoleg gwybodaeth a thelathrebu | **125** | 101 |
| Cyfathrebu | **18** | 16 |
| Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol) | **21** | 20 |
| Costau gweinyddu eraill | **4** | 20 |
| | **466** | 409 |

Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 (2024-25: £0).

Ceir rhagor o fanylion yn y sylwebaeth ar y perfformiad ariannol ar dudalennau 50 i 54.

## 5 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £255,000 (2024-25: £181,000). Ni dderbyniwyd incwm ar ffurf nawdd (2024-25: £22,000). Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 54.

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

| | Asedau dan ddatblygiad £000 | Meddalwedd £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 204 | 122 | 326 |
| Ychwanegiadau | 7 | 14 | 21 |
| Amhariad | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **211** | **136** | **347** |
| | | | |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | - | 58 | 58 |
| Cost am y flwyddyn | - | 31 | 31 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **89** | **89** |
| | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **211** | **47** | **258** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 204 | 64 | 268 |

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy (parhad)

| | Asedau dan ddatblygiad £000 | Meddalwedd £000 | Trwyddedau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 237 | 114 | 43 | 394 |
| Ychwanegiadau | - | 33 | - | 33 |
| Amhariad | (33) | - | - | (33) |
| Gwarediadau | - | (25) | (43) | (68) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **204** | **122** | **-** | **326** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | 43 | 43 | 86 |
| Cost am y flwyddyn | - | 23 | - | 23 |
| Gwarediadau | - | (8) | (43) | (51) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **58** | **-** | **58** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **204** | **64** | - | **268** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 237 | 71 | - | 308 |

Mae asedau dan ddatblygiad yn cynrychioli'r System Rheoli Achosion sydd wedi bod dan ddatblygiad, gyda'r datblygiad wedi'i gwblhau gan y darparwr allanol ar 1 Mai 2026.

# 7 Asedau hawl i ddefnydd

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 233 | 233 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| Addasiadau i'r gwerth | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **233** | **233** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 96 | 96 |
| Cost am y flwyddyn | 41 | 41 |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **137** | **137** |
| | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **96** | **96** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 137 | 137 |

## 7 Asedau hawl i ddefnydd (parhad)

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 233 | 233 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| Addasiadau i'r gwerth | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **233** | **233** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 54 | 54 |
| Cost am y flwyddyn | 42 | 42 |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **96** | **96** |
| | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **137** | **137** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 179 | 179 |

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau

| | Celfi a gosodiadau | Offer swyddfa | Isadeiledd ac offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 52 | 5 | 220 | 277 |
| Ychwanegiadau | - | 12 | 17 | 29 |
| Gwarediadau | - | - | (23) | (23) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **52** | **17** | **214** | **283** |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 39 | 1 | 136 | 176 |
| Cost am y flwyddyn | 3 | 3 | 27 | 33 |
| Gwarediadau | - | - | (22) | (22) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **42** | **4** | **141** | **187** |
| | | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **10** | **13** | **73** | **96** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 13 | 4 | 84 | 101 |

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau (parhad)

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Isadeiledd ac offer TG £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 60 | 12 | 243 | 315 |
| Ychwanegiadau | 1 | 4 | 18 | 23 |
| Gwarediadau | (9) | (11) | (41) | (61) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **52** | **5** | **220** | **277** |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 44 | 12 | 155 | 211 |
| Cost am y flwyddyn | 4 | - | 21 | 25 |
| Gwarediadau | (9) | (11) | (40) | (60) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **39** | **1** | **136** | **176** |
| | | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **13** | **4** | **84** | **101** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 16 | - | 88 | 104 |

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymiadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £0).

## 9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2026** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Derbyniadau masnachol | 3 | 1 |
| Rhagdaliadau | 54 | 51 |
| Dyledwyr arall | 2 | 2 |
| | 59 | 54 |

Y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn yw £343 (31 Mawrth 2025: £702).

## 10 Arian parod ac arian cywerth

| | **2025-26** | 2024-25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 135 | 175 |
| Newidiadau net mewn balansau arian parod ac arian cywerth | (3) | (40) |
| Balans ar 31 Mawrth | 132 | 135 |

## 11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **31 Mawrth 2026** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | 53 | 46 |
| Taliadau masnachol | 136 | 126 |
| Croniadau | 131 | 138 |
| | 320 | 310 |

## 12 Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

| | **2025-26** | 2024-25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 125 | 161 |
| Cyflwynwyd yn y flwyddyn | - | - |
| Addasiadau i'r gwerth | - | - |
| Ad-daliadau | (41) | (40) |
| Costau cyllido | 3 | 4 |
| Balans ar 31 Mawrth | 87 | 125 |

| **Dadansoddiad o amseru disgwyliedig rhwymedigaethau** | **31 Mawrth 2026** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| O fewn blwyddyn | 39 | 40 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 48 | 85 |
| | 87 | 125 |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

| | Arall £000 | Cyfreithiol £000 | Dadfeiliadau ac ailaddurno £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2025 | 1 | 15 | 98 | 114 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 15 | 4 | 19 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | (29) | (1) | (30) |
| Rhyddhau darpariaethau nas defnyddiwyd | - | - | - | - |
| Newid i'r gyfradd disgownt | - | - | 2 | 2 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth 2026** | 1 | 1 | 103 | 105 |

Yn seiliedig ar gyfraddau disgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EF ym mis Rhagfyr 2025, defnyddiwyd cyfradd wedi'i phwysoli o 1.34% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2024-25: 1.66%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymiadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau cyfreithiol yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

| **Dadansoddiad o amseru disgwyliedig rhwymedigaethau** | Arall £000 | Cyfreithiol £000 | Dadfeiliadau ac ailaddurno £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 1 | 1 | 12 | 14 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | - | 91 | 91 |
| | 1 | 1 | 103 | 105 |

## 14 Rhwymedigaethau amodol

Mae'r Comisiynydd yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol) lle mae rhwymedigaeth bosib yn ddibynnol ar ddigwyddiad yn y dyfodol lle bo ansicrwydd yn ei gylch; neu fod rhwymedigaeth bresennol ond nid yw'r taliad yn debygol neu ni ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £0).

## 15 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

## 16 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig Hydref 2024, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2025-26 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido refeniw o £3,410,000 (2024-25: £3,309,000) ac arian cyfalaf o £50,000 (2024-25: £50,000) gan Weinidogion Cymru.

Cydnabuwyd costau o £45,800 yn daladwy i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhent a chostau gwasanaethau'r swyddfa (2024-25: £45,300), £0 ar gyfer costau gosod y swyddfa (2024-25: £1,400), a £0 ar fuddsoddiad ar gyfalaf (2024-25: £2,100). Roedd £3,500 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025 £5,200).

## 17 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C, Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon, LL55 1TH

post@cyg-wlc.cymru
**0345 6033 221**
comisiynyddygymraeg.cymru

@comygymraeg
ComisiynyddyGymraeg
Comisiynydd y Gymraeg/Welsh Language Commissioner